

Vyrnwy Frankton

Adroddiad Gwybodaeth Amgylcheddol Rhagarweiniol –
Crynodeb Annhechnegol

Cyfeirnod y Ddogfen:	VF-ARC-ENV-REP-0001-Preliminary Environmental Information Report Non-Technical Summary
Diwygiad:	01

Chwefror 2025



greengencymru.com

Rheoli Fersiynau

Fersiwn	Dyddiad	Awdur	Gwiriwr	Adolygydd	Cymeradwywr
01	Chwefror 2025	JT	EL	HW	CS

Cynnwys

1	Cyflwyniad	Error! Bookmark not defined.
2	Methodoleg yr Asesiad o Effaith Amgylcheddol	Error! Bookmark not defined.
3	Ystyried Dewisiadau Eraill	Error! Bookmark not defined.
4	Tirwedd ac Amwynder Gweledol	Error! Bookmark not defined.
5	Ecoleg	Error! Bookmark not defined.
6	Adaryddiaeth	Error! Bookmark not defined.
7	Yr Amgylchedd Hanesyddol	Error! Bookmark not defined.
8	Traffig a Thrafnidiaeth	Error! Bookmark not defined.
9	Sŵn a Dirgryniad	Error! Bookmark not defined.
10	Adnoddau Dŵr	Error! Bookmark not defined.
11	Cyflyrau y Ddaear, Daeareg a Hydroddaeareg	Error! Bookmark not defined.
12	Ansawdd Aer	Error! Bookmark not defined.
13	Priddoedd ac Amaethyddiaeth	Error! Bookmark not defined.
14	Iechyd a Llesiant	Error! Bookmark not defined.
15	Damweiniau Mawr a Thrychinebau	Error! Bookmark not defined.
16	Nwyon Tŷ Gwydr	Error! Bookmark not defined.
17	Economeg Gymdeithasol, Adloniant a Thwristiaeth	Error! Bookmark not defined.
18	Asesiad o'r Effeithiau Cronnol	Error! Bookmark not defined.
19	Casgliad	Error! Bookmark not defined.

Tablau

Tabl 1 – Dewisiadau Eraill a Ystyriwyd	Error! Bookmark not defined.
Tabl 2 – Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr sylfaenol (2022) yn lleol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol	Error! Bookmark not defined.

1 Cyflwyniad

1.1 Y Crynodeb Annhechnegol

1.1.1 Mae'r ddogfen hon yn cyflwyno Crynodeb Annhechnegol o'r Adroddiad Gwybodaeth Amgylcheddol Rhagarweiniol (PEIR) a luniwyd i hysbysu'r cyhoedd a rhanddeiliaid perthnasol am ganfyddiadau rhagarweiniol proses yr Aseiad o'r Effaith Amgylcheddol ar gyfer Prosiect Vyrnwy Frankton (y cyfeirir ato o hyn ymlaen fel 'y Prosiect').

1.2 Disgrifiad o'r Safle a'r Prosiect

1.2.1 Mae'r Prosiect yn rhychwantu ardaloedd gweinyddol Cyngor Sir Powys yng Nghymru a Chyngor Swydd Amwythig yn Lloegr. Bydd yn dechrau yn Is-orsaf Casglwr 132kV Grug y Mynydd, Powys, a bydd yn cynnwys gosod offer switsio trydanol ac offer cysylltiedig.

1.2.2 Bydd Ceb1 Tanddaearol 132kV yn ymestyn o Is-orsaf Casglwr Grug y Mynydd drwy Barc Ynni arfaethedig Llyn Lort (prosiect ar wahân sy'n cael ei gynnig a'i gydsynio gan Bute Energy Ltd) am tua 4.8km cyn cysylltu â Chyfansawdd Selio Pen Ceb1 (CSEC) newydd ger Cors y Garreg. Bydd y CSEC yn gofyn am osod offer trydanol a nenbont.

1.2.3 Yna bydd y llinell uwchben 132kV arfaethedig yn teithio i gyfeiriad y gogledd-ddwyrain am tua 45km drwy Ddyffryn Efyrynwy, gyda chynhaliaeth ar dyrau dellt dur ag uchder cyfartalog o 28.5m. Yna bydd y llinell uwchben 132kV yn cysylltu â Gorsaf Switsio newydd, sy'n cynnwys gosod offer trydanol a nenbont ger Frankton Isaf yn Swydd Amwythig. Bydd hyn yn caniatáu cysylltiad â'r is-orsaf newydd ger Frankton Isaf, sy'n cael ei gynnig a'i gydsynio ar wahân gan y Grid Cenedlaethol.

1.2.4 Hefyd, bydd angen dargyfeirio cyfleustodau a/neu addasiadau trydydd parti i hwyluso gwaith adeiladu y Prosiect a fydd yn croesi llinellau uwchben foltedd is 132kV, y rheilffordd rhwng Amwythig a Chaer, a Chamlas Trefaldwyn.

1.2.5 Bydd y Prosiect yn gofyn am seilwaith cyfleustodau parhaol yn ystod camau gweithredu a chynnal a chadw y Prosiect a fydd yn cynnwys draenio a goleuo sy'n gysylltiedig ag Is-orsaf Casglwr Grug y Mynydd, Ceb1 Tanddaearol, CSEC

Cors y Garreg, llinell uwchben, a Gorsaf Switsio Frankton Isaf. Bydd angen ffyrdd mynediad ar gyfer cynnal a chadw hefyd.

- 1.2.6 Bydd tir hefyd yn ofynnol i liniaru, cydadfer a gwella'r amgylchedd, gan gynnwys Enillion Net Bioamrywiaeth a fydd hefyd yn gyson â'r gofynion Buddiannau Net ar gyfer Bioamrywiaeth yng Nghymru.
- 1.2.7 Yn ogystal â'r seilwaith parhaol, bydd angen tir ar gyfer gweithgareddau adeiladu dros dro, gan gynnwys traciau mynediad a chyfansoddion adeiladu a fydd yn darparu lleoliadau ar gyfer storio deunyddiau, offer, peiriannau a lleoliadau diogel ar gyfer swyddfeydd safle a darpariaeth llesiant staff.
- 1.2.8 Amcangyfrifir y bydd y cam adeiladu yn cymryd oddeutu dwy flynedd ar y cyfan (o Ch4 2027 i Ch4 2029).

1.3 Y Ceisydd

- 1.3.1 Green Generation Energy Networks Cymru yw Ceisydd y Prosiect. Ei nod yw darparu ynni glân i wahanol leoliadau a chefnogi targedau di-allyriadau y llywodraeth. Hefyd, mae'r Ceisydd yn ceisio mynd i'r afael â heriau ynni a hinsawdd wrth roi hwb i gymunedau gwledig â buddsoddiadau a chyfleoedd gwaith.

1.4 Proses Gorchymyn Cydsyniad Datblygu (DCO)

- 1.4.1 Mae'r Prosiect yn Brosiect Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol o dan Ddeddf Cynllunio 2008. Felly, mae'n rhaid i'r Ceisydd wneud cais o dan Ddeddf Cynllunio 2008 am ganiatâd o'r enw Gorchymyn Cydsyniad Datblygu (DCO) i adeiladu a gweithredu'r Prosiect.
- 1.4.2 Bydd y cais am gydsyniad datblygu yn cael ei gyflwyno i'r Ysgrifennydd Gwladol, a fydd yn archwilio'r cais drwy arolygwyr penodedig o'r Arolygiaeth Gynllunio, a elwir yn Awdurdod Archwilio. Bydd yr Awdurdod Archwilio yn gwneud argymhelliad i'r Ysgrifennydd Gwladol ynghylch a ddylid cydsynio cais datblygu ar gyfer y Prosiect. Yr Ysgrifennydd Gwladol fydd yn gwneud y penderfyniad terfynol.

1.5 Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol

- 1.5.1 Diben Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol yw nodi'r effeithiau amgylcheddol posibl sy'n deillio o ddatblygiad ac yna cynnig modd o osgoi a lleihau'r effeithiau. Yna cyflwynir yr wybodaeth hon mewn Datganiad Amgylcheddol er mwyn cynorthwyo'r Awdurdod Archwilio yn y broses o wneud penderfyniadau yn yr achos hwn.
- 1.5.2 Asesir pa mor sylweddol yw'r effaith ar ystod eang o dderbynyddion, gan gynnwys ffisegol, biolegol a dynol, a chynigir mesurau lliniaru er mwyn lleihau unrhyw effeithiau sylweddol.
- 1.5.3 Mae'r PEIR hwn yn cyflwyno cipolwg mewn amser o sut mae'r Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol yn mynd rhagddo ac yn cyflwyno arwydd cynnar o effeithiau sylweddol.
- 1.5.4 Cyflwynir y PEIR mewn tair cyfrol, gan gynnwys:
- Cyfrol 1—Prif Adroddiad.
 - Cyfrol 2—Ffigyrau.
 - Cyfrol 3—Atodiadau.
- 1.5.5 Crynodeb annhechnegol o'r PEIR yw'r ddogfen hon.

1.6 Ymgynghoriad

- 1.6.1 Mae'r Ceisydd yn ymgynghori ar ei gynigion ar gyfer y Prosiect fel y gellir ystyried sylwadau gan randdeiliaid a chymunedau yn y penderfyniadau a wneir ar y Prosiect.
- 1.6.2 Cyflwynodd y Ceisydd gais am Farn Gwmpasu i'r Arolygiaeth Gynllunio ar 23 Ionawr 2024 i ofyn am farn ar gwmpas a lefel yr wybodaeth sydd i'w chynnwys yn y Datganiad Amgylcheddol yn rhan o'r cais DCO. Rhoddodd yr Arolygiaeth Gynllunio, ar ran yr Ysgrifennydd Gwladol, Farn Gwmpasu i'r Ceisydd ar 20 Mai 2024. Ymgorfforir y sylwadau a'r argymhellion a gynhwysir yn y Farn Gwmpasu ym mhroses yr Asesiad o Effaith Amgylcheddol.
- 1.6.3 Mae'r Ceisydd yn cyflawni proses ymgynghori dau gam.
- Cam Un: Ymgynghoriad anstatudol ar gynigion sy'n dod i'r amlwg. Nid yw ymgynghoriadau anstatudol yn gyfreithiol rwymol, ond mae arferion gorau cytunedig i sicrhau y cwblheir ymgynghoriad o ansawdd da.

- Cam Dau: Ymgynghoriad statudol ar ddyluniad datblygedig ynghyd ag asesiadau amgylcheddol rhagarweiniol. Mae ymgynghoriadau statudol yn rhwym gan ofynion cyfreithiol, Deddf Cynllunio 2008 yn yr achos hwn.

Ymgynghoriad Cam Un

1.6.4 Cynhaliodd y Ceisydd gam cyntaf yr ymgynghoriad (ymgynghoriad anstatudol) rhwng 6 Medi a 18 Hydref 2023. Roedd yr ymgynghoriad hwn yn cynnwys hysbysu a briffio rhanddeiliaid, gweminarau cymunedol, a digwyddiadau cyhoeddus yn y cymunedau sydd agosaf at y Prosiect. Gofynnodd yr ymgynghoriad am sylwadau ar y canlynol:

- Yr ardal chwilio arfaethedig ar gyfer is-orsaf casglwr a CSEC ym Mhowys;
- Y llwybr a ffeirir ar gyfer y cysylltiad drwy Bowys a Swydd Amwythig.

Ymgynghoriad Cam Dau

1.6.5 Cynhelir yr ail gam (ymgynghoriad statudol), y mae'r PEIR hwn yn elfen bwysig ohono, yn ystod gwanwyn 2025 er mwyn cael sylwadau ar y canlynol:

- Y cynigion ar gyfer Is-orsaf Casglwr Grug y Mynydd, CSEC Cors y Garreg, a Gorsaf Switsio Frankton Isaf gan gynnwys cynlluniau dangosol.
- Y cynigion ar gyfer y Llwybr Ceb1 Tanddaearol ym Mharc Ynni arfaethedig Llyn Lort.
- Y llwybr arfaethedig ar gyfer y cysylltiad llinell uwchben gan gynnwys safleoedd ar gyfer y seilwaith sydd ei angen.
- Cynigion ar gyfer defnydd tir cysylltiedig yn ystod y gwaith adeiladu, megis ardaloedd storio.
- Gwybodaeth amgylcheddol rhagarweiniol sy'n gysylltiedig â'r cynigion ar y cam hwn.

1.6.6 Yn ogystal ag ymateb i sylwadau Ymgynghoriad Statudol, bydd y Ceisydd yn parhau i ymgysylltu â'r ymgynghoreion perthnasol drwy gyfarfodydd a thrafodaethau wedi eu targedu, pan fo hynny'n briodol, drwy gydol datblygiad y Datganiad Amgylcheddol a hyd at, a chan gynnwys y cais am gydsyniad datblygu.

1.7 Cwmpas yr Asesiad o'r Effeithiau Amgylcheddol

- 1.7.1 Yn sgil derbyn y Farn Gwmpasu, mae'r pynciau canlynol wedi eu cynnwys yn yr asesiad ar gyfer y PEIR a byddant hefyd yn rhan o gwmpas yr asesiad ar gyfer y Datganiad Amgylcheddol.
- 1.7.2 Y penodau pwnc technegol a gyflwynir yn y PEIR hwn yw:
- Tirwedd ac Amwynder Gweledol.
 - Ecoleg.
 - Adaryddiaeth.
 - Amgylchedd Hanesyddol.
 - Traffig a Thrafnidiaeth.
 - Sŵn a Dirgryniad.
 - Adnoddau Dŵr.
 - Cyflyrau y Ddaear, Daeareg a Hydroddaeareg.
 - Ansawdd Aer.
 - Priddoedd ac Amaethyddiaeth.
 - Iechyd a Llesiant.
 - Damweiniau Mawr a Thrychinebau.
 - Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr.
 - Economeg gymdeithasol.
- 1.7.3 Mae'r pynciau sy'n berthnasol i broses yr Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol wedi eu hasesu yn y PEIR hwn (Pennod 6 i Bennod 19) a chrynoir y canfyddiadau allweddol yn y Crynodeb Annhechnegol hwn.

2 Methodoleg yr Asesiad o Effaith Amgylcheddol

2.1 Dull Asesu Effaith Cyffredinol

- 2.1.1 Mae proses yr Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol yn dilyn dull ar sail derbynydd. Derbynyddion yw'r agweddau hynny ar yr amgylchedd a allai fod yn sensitif i newid oherwydd y Prosiect. Gall yr effeithiau ar dderbynyddion fod yn niweidiol (negyddol), yn niwtral (ddim yn negyddol nac yn gadarnhaol) neu fuddiol (cadarnhaol). Hefyd, gallai effeithiau fod yn barhaol (na ellir eu gwrthdroi) neu dros dro (gwrthdroadwy) ac yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol.
- 2.1.2 Mae'r rhyngweithio rhwng sensitifrwydd neu bwysigrwydd derbynydd a graddfa bosibl yr effaith yn cynhyrchu 'arwyddocâd' yr effaith amgylcheddol sy'n amrywio rhwng 'dibwys' ac 'o bwys mawr'. Nodir y disgrifiad o'r fethodoleg asesu effaith a fabwysiadwyd ar gyfer y Prosiect ym mhob pennod dechnegol o'r PEIR.
- 2.1.3 Pan ragwelir effaith andwyol 'sylweddol' ar un neu fwy o dderbynyddion (effaith y rhagwelir a fydd yn cael effaith andwyol mawr neu gymedrol), nodir mesurau lliniaru, er mwyn osgoi neu leihau'r effaith a nodwyd, neu leihau'r tebygolrwydd y bydd yn digwydd cyn belled ag y bo hynny'n ymarferol. Gyda mesurau lliniaru ar waith, asesir yr 'effaith weddilliol', sef arwyddocâd disgwylidig yr effaith ar ôl i'r mesurau gweithredu gael eu cymhwyso.
- 2.1.4 Mae effeithiau cronus y Prosiect gyda datblygiadau eraill, yn ogystal ag effaith gyfun gwahanol fathau o effeithiau amgylcheddol y Prosiect ar yr un derbynyddion, hefyd yn cael eu hystyried yn y PEIR.

2.2 Dull Lliniaru

- 2.2.1 Mae'r Ceisydd wedi sicrhau bod dyluniad y Prosiect yn osgoi neu'n lleihau effeithiau amgylcheddol ar dderbynyddion pan fo hynny'n bosibl. Mae nifer o fesurau wedi eu corffori yn nyluniad y cysyniad er mwyn osgoi neu leihau effeithiau amgylcheddol. Mae'r mesurau hyn yn cynnwys y rhai sy'n ofynnol ar gyfer cydymffurfiaeth gyfreithiol ac maent hefyd yn cynnwys canllawiau arferion gorau cyffredol y diwydiant a fydd yn cael eu mabwysiadu wrth adeiladu a

gweithredu'r Prosiect. Mae'r tri math o liniaru a gorfforir yn y Prosiect a'r asesiad rhagarweiniol yn cynnwys: ymwreiddio, arferion da, a lliniaru hanfodol.

- 2.2.2 Diffinnir mesurau lliniaru amgylcheddol ym mhob pennod pwnc yn y PEIR. Bydd unrhyw gyfleoedd i wella'r amgylchedd yn fwy na mesurau lliniaru hanfodol (os oes angen) a Buddiannau Net yn cael eu disgrifio yn y Datganiad Amgylcheddol.
- 2.2.3 Bydd y mesurau lliniaru adeiladu a argymhellir yn ystod proses yr Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol yn cael eu hadrodd mewn Cynllun Rheoli Amgylcheddol Adeiladu Amlinellol (OCEMP) a fydd yn cyd-fynd â'r Datganiad Amgylcheddol a'r cais DCO.

2.3 Y Camau Nesaf

- 2.3.1 Yn dilyn y PEIR a'r Crynodeb Annhechnegol, bydd yr asesiad terfynol yn cael ei gyflwyno yn y Datganiad Amgylcheddol a gyflwynir gyda'r cais DCO.

3 Ystyried Dewisiadau Eraill

- 3.1.1 Dylai Datganiad Amgylcheddol ddogfennu'r dewisiadau rhesymol eraill a ystyriwyd yn rhan o ddatblygiad y Prosiect ac arwydd o'r prif resymau dros ddewis yr opsiwn a ddewiswyd.
- 3.1.2 Yn rhan o'r broses dylunio ailadroddol, nodwyd nifer o ddewisiadau ar gyfer y Prosiect, a oedd yn ystyried cyfyngiadau technegol ac amgylcheddol (gweler PEIR Cyfrol 1: Pennod 3).
- 3.1.3 Amlinellir crynodeb o ganfyddiadau allweddol y broses ailadroddol hon isod yn Nhabl 1.

Tabl 1—Dewisiadau Eraill a Ystyriwyd

Senario	Disgrifiad	Canfyddiadau
Senario 'Gwneud Dim Byd'	Ni fydd senario 'gwneud dim' yn gwneud cynnydd yn unrhyw gynigion datblygu sy'n gysylltiedig â'r Prosiect.	Ni fydd seilwaith trydanol newydd rhwng y Parciau Ynni arfaethedig a'r System Trosglwyddo Trydan Genedlaethol (NETS). O'r herwydd, nid yw dewis gwneud dim yn ateb credadwy ac nid yw'n cael ei ystyried ymhellach.
Datblygu Dewisiadau Strategol	Roedd Strategaeth Cysylltiad Grid Cam Dau y Ceisydd yn asesu ac yn ystyried 10 dewis cysylltiad posibl, mewn tri rhanbarth daearyddol. Ym mhob parth daearyddol, nodwyd lleoliadau posibl ar gyfer 'is-orsaf newydd' yn seiliedig naill ai ar hyd y llwybr byrraf a/neu'r gallu i osgoi safleoedd a ddynodwyd yn genedlaethol.	Parth y Gogledd, Dewis 4 (Frankton Isaf—Is-orsaf newydd) oedd y dewis a ffeirid fel y dewis cysylltiad grid ar gyfer Parciau Ynni Canolbarth Cymru. Dewiswyd yr opsiwn hwn oherwydd hwn oedd yn perfformio orau o ran ystyriaethau amgylcheddol a'r angen i gyflawni ateb economaidd ac effeithlon.
Ceblau tanddaearol a llinellau uwchben	Mae'r Ceisydd wedi ystyried ateb cwbl danddaearol ar gyfer y cysylltiad yn hytrach na llinell uwchben.	Ystyriwyd bod ateb cwbl danddaearol ar gyfer y cysylltiad yn anymarferol yn economaidd, gan gynyddu'r amser a gymerir i gwblhau'r Prosiect, a chynyddu'r effeithiau ecolegol yn ystod y cam adeiladu. Bydd hyn yn golygu na fydd y Ceisydd yn cydymffurfio â'i rwymedigaethau fel deiliad trwydded i fod yn ddarbodus ac effeithlon. Fodd bynnag, mae'r Ceisydd yn deall, mewn rhai amgylchiadau, efallai y bydd angen cyflawni adran o'r Prosiect oddi tan y ddaear, er bod yn rhaid i hyn fod yn gyson â

Senario	Disgrifiad	Canfyddiadau
		chydbwysedd rhwng dichonoldeb technegol ac economaidd, cyflawnadwyedd ac ystyriaethau amgylcheddol
Strwythurau Cynhaliol	Mae'r Ceisydd wedi ystyried y gwahanol strwythurau sydd ar gael i gefnogi llinellau (gwifrau) dargludo uwchben a all weithredu ar 132kV.	Mae'r Ceisydd wedi penderfynu bod tyrau dellt dur L7 yn taro'r cydbwysedd cywir o ran cyflawnadwyedd, dichonoldeb economaidd, effeithlonrwydd ac effeithiau amgylcheddol tebygol o'u cymharu â thyrau L8 neu bolion pren. Defnyddir tyrau L8 yn nodweddiadol ar gyfer llinellau 275kV neu 400kV sy'n eu gwneud yn anaddas ar gyfer y cysylltiad 132kV arfaethedig. Bydd tyrau dellt dur L7 hefyd yn darparu digon o hyblygrwydd i gyflenwi ynni gwyrdd i Gymru yn y tymor byr a'r tymor hwy.
Nodi a Dewis Coridor	Roedd dewis y coridor a ffefrir yn cynnwys sawl cam gan gynnwys nodi ardal astudio, Ystyriaethau Mapio a Phennu Llwybrau, Nodi Coridorau, ac Arfarnu Coridorau.	Yn seiliedig ar gydbwysedd yr holl feini prawf, dewiswyd Opsiwn Coridor un oherwydd hwn oedd y coridor byrraf. Dyma'r dewis a ffefrir mewn cysylltiad â thirwedd ac amwynder gweledol a threftadaeth ddiwylliannol, ac mae'n cynnwys yr ardal leiaf o dir amaethyddol Gorau a Mwyaf Amlwrpas, tir comin, man gwyrdd agored a datblygiad neilltuedig.
Nodi a Dewis Opsiwn Llwybr	Ar ôl i'r coridor a ffefrir gael ei nodi, nodwyd llwybrau posibl i gysylltu lleoliad arfaethedig Compownd Pen Selio Cebi Cors y Carreg (CSEC), gerllaw'r Parc Ynni arfaethedig Llyn Lort â'r ardal lle y cynigir lleoli is-orsaf yn Swydd Amwythig. Yn yr un modd â dewisiadau coridor, diben nodi dewisiadau llwybr yw	Rhannwyd y llwybr o Barc Ynni arfaethedig Llyn Lort i is-orsaf Swydd Amwythig yn bum adran. Roedd gan bob un o'r pum adran dri dewis llwybr, er bod y dewisiadau llwybr hyn yn gorgyffwrdd ar ran o'r llwybr mewn rhai ardaloedd. Dewiswyd y llwybr a ffefrir ar gyfer ymgynghoriad anstatudol 2023.

Senario	Disgrifiad	Canfyddiadau
	cymharu'r dewisiadau llwybr eraill er mwyn nodi llwybr dewisol.	
Newidiadau y tu allan i'r Coridor a Ffebrid yn 2023	Mae pedwar prif newid i'r coridor a ffebrid yn 2023 y gofynnwyd amdanynt drwy sylwadau ymgynghoriad.	Mae'r aliniadau llwybr newydd a ffebrir wedi ystyried cyfyngiadau technegol ac amgylcheddol. Dangosir y flaenoriaeth cyffredinol newydd o'i chymharu â'r llwybr a ffebrid yn 2023 yn PEIR Cyfrol 2: Ffigur 3.1.
Ymgynghoriad statudol 2025	Yn dilyn sylwadau o ymgynghoriad anstatudol 2023, mae'r Prosiect wedi ei fireinio ymhellach er mwyn datblygu'r aliniad drafft a ffebrir ar gyfer yr ymgynghoriad statudol hwn yn 2025.	Dangosir yr aliniad drafft a ffebrir yn 2025 yn PEIR Cyfrol 2: Ffigur 3.1.

4 Tirwedd ac Amwynder Gweledol

4.1 Cyflwyniad

4.1.1 Mae'r asesiad Tirwedd ac Amwynder Gweledol rhagarweiniol wedi casglu gwybodaeth drwy astudiaeth desg ac arolygon ac mae'n nodi effeithiau sylweddol tebygol y Prosiect ar gymeriad y dirwedd, safbwyntiau sensitif, a'r rhai sy'n profi'r safbwyntiau.

4.1.2 Mae'r Asesiad Cymeriad Tirwedd wedi nodi bod ardal yr astudiaeth yn croesi tair Ardal Cymeriad Tirwedd Cenedlaethol (NLCA) yng Nghymru a dwy Ardal Cymeriad Cenedlaethol yn Lloegr, a nododd yr asesiad rhanbarthol 27 o ardaloedd cymeriad a groesir gan ardal yr astudiaeth ledled Powys a Swydd Amwythig.

4.1.3 Lleolir oddeutu 6km o'r Prosiect yn 'Ardal Ymgeisiol' y Parc Cenedlaethol newydd arfaethedig a gyflwynwyd gan Cyfoeth Naturiol Cymru.

4.1.4 Mae'r derbynyddion gweledol yn ardal yr astudiaeth a allai brofi effeithiau sylweddol sy'n deillio o'r Prosiect yn cynnwys:

- Trigolion mewn aneddiadau cyfagos.
- Pobl sy'n cymryd rhan mewn adloniant awyr agored.
- Cyrchfannau twristiaeth ac ardaloedd adloniant.
- Meysydd gwerysyla, parciau carafanau a llety gwyliau arall;
- Pobl sy'n teithio ar hyd y rhwydwaith ffyrdd a rheilffyrdd.

4.1.5 Amlinellir y safbwyntiau rhagarweiniol dangosol sy'n cynrychioli'r derbynyddion gweledol hyn yn PEIR Cyfrol 1: Pennod 6 ac yn PEIR Cyfrol 2: Ffigur 6.6.

4.2 Adeiladu

4.2.1 Yn ystod y cam adeiladu, bydd effeithiau y prosiect yn gysylltiedig yn bennaf â'r hyn a ganlyn:

- Clirio llystyfiant.
- Gosod oddeutu 4.8km o Gebl Tanddaearol gan ddefnyddio cyfuniad o dechnegau gosod ceblau drwy gloddio ffosydd a heb orfod cloddio ffosydd.
- Adeiladu cyfansoddion adeiladu dros dro.
- Symud cerbydau adeiladu cysylltiedig.
- Darparu croesfannau cyrsiau dŵr.

- Gwarchod defnyddwyr y priffyrdd presennol.
- Cloddio ac adeiladu sylfeini tyrau.
- Cyflenwi, cydosod, a chodi tyrau.
- Cysylltu gwifrau dargludo â pheilonau a chomisiynu'r llinellau uwchben.
- Cael gwared ar seilwaith dros dro ac adfer, gan gynnwys gwaith tirwedd.
- Goleuo yn ystod y gwaith adeiladu os yw'r gwaith yn mynd rhagddo pan mae'n dywyll.

4.2.2 PEIR Cyfrol 1: Mae Pennod 6 yn amlinellu'r asesiad rhagarweiniol o'r effeithiau posibl ar dirwedd ac amwynder gweledol sy'n gysylltiedig â'r cam adeiladu.

4.3 Gweithrediad

4.3.1 Yn ystod y cam gweithredu, bydd effeithiau y Prosiect yn gysylltiedig yn bennaf â phresenoldeb hirdymor:

- Is-orsaf Casglwr 132kV newydd yng Ngrug y Mynydd, gyda dimensiynau o 250m x 150m ac uchder uchaf o 13m.
- Llinell uwchben 132kV newydd a gynhelir gan dyrau L7(c) sy'n amrywio rhwng 23–36m o ran uchder.
- CSEC newydd yng Ngors y Garreg, gyda dimensiynau o 80m x 50m ac uchder uchaf o 13m.
- Gorsaf Switsio newydd yn Frankton Isaf gyda dimensiynau o 250m x 150m ac uchder uchaf o 13m.
- Fforddfraint/cliriadau drwy goetir a lleiniau coed sy'n gysylltiedig â'r llinell uwchben a'r Cebi Tanddaearol.

4.3.2 PEIR Cyfrol 1: Mae Pennod 6 yn amlinellu'r asesiad rhagarweiniol o'r effeithiau posibl ar dirwedd ac amwynder gweledol sy'n gysylltiedig â'r cam gweithredu.

4.4 Lliniaru

4.4.1 Mae mesurau lliniaru a ymwreiddir yn cynnwys pennu llwybrau a lleoli mewn modd sensitif er mwyn osgoi derbynyddion amgylchedd y dirwedd ac amwynder gweledol.

4.4.2 Mae mesurau lliniaru arferion da yn cynnwys datblygu OCEMP er mwyn atal, lleihau neu liniaru effeithiau amgylcheddol sylweddol yn ystod y cam adeiladu.

4.4.3 Mewn ymgynghoriad â rhanddeiliaid, bydd mesurau lliniaru hanfodol yn cael eu datblygu pan fo hynny'n ymarferol er mwyn helpu i wrthbwysu effeithiau y Prosiect.

4.5 Aseiad Pellach

- 4.5.1 Bydd yr aseiad tirwedd ac amwynder gweledol rhagarweiniol yn cael ei ddatblygu ymhellach gan arwain at y cais am gydsyniad datblygu. Mae hyn yn cynnwys ymgysylltu'n barhaus â rhanddeiliaid ac arolygon o'r ardaloedd cymeriad tirwedd a nodwyd, derbynyddion gweledol a ffotograffiaeth y gaeaf a'r haf.

5 Ecoleg

5.1 Cyflwyniad

- 5.1.1 Mae'r asesiad Ecoleg rhagarweiniol wedi casglu gwybodaeth drwy astudiaeth desg ac arolygon.
- 5.1.2 Mae safleoedd rhyngwladol a chenedlaethol a ddynodir at ddibenion cadwraeth natur fel Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA), Safleoedd Ramsar, a Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGAau) wedi eu nodi yn ardal berthnasol yr astudiaeth.
- 5.1.3 Nodwyd cynefinoedd o bwysigrwydd, gan gynnwys gwrychoedd a choetir.
- 5.1.4 Cofnodwyd arwyddion o weithgarwch gan rywogaethau, gan gynnwys moch daear, ystlumod, dyfrgwn ac ymlusgiaid. Cynhelir arolygon ar hyn o bryd i gadarnhau statws y rhywogaethau hyn a grwpiau rhywogaethau eraill, a bydd y canlyniadau yn cael eu hadrodd yn llawn yn y Datganiad Amgylcheddol.

5.2 Adeiladu

- 5.2.1 Yn ystod y cam adeiladu, ni ddisgwylir i'r Prosiect gael unrhyw effaith sylweddol ar safleoedd a ddynodwyd yn genedlaethol, gan gynnwys ardaloedd a ddynodwyd ar gyfer ystlumod. Mae'r rhan fwyaf o'r Prosiect yn croesi tir fferm ac iddo werth ecolegol isel. Nid yw arolygon rhywogaethau a warchodir wedi eu cynnal eto, fodd bynnag, o ystyried natur y gwaith, mae'n debyg na fydd canlyniadau y chwiliad data a'r gallu i ddewis union leoliadau posibl er mwyn osgoi effeithiau uniongyrchol yr effaith ar rywogaethau a warchodir yn sylweddol.
- 5.2.2 PEIR Cyfrol 1: Mae Pennod 7 yn amlinellu'r asesiad rhagarweiniol o'r effeithiau posibl ar ecoleg sy'n gysylltiedig â'r cam adeiladu.

5.3 Gweithrediad

- 5.3.1 Yn ystod y cam gweithredu, mae effeithiau posibl yn cynnwys rheoli ardal y Prosiect yn weithredol sy'n cynnwys cynnal llystyfiant fforddfraint o dan y llinellau dargludo a, phan maent yn mynd drwy neu dros llystyfiant coediog,

dadleoli rhywogaethau a risg gwrthdrawiadau. Fodd bynnag, mae'n debygol na fydd yr effeithiau yn sylweddol.

- 5.3.2 PEIR Cyfrol 1: Mae Pennod 7 yn amlinellu'r asesiad rhagarweiniol o'r effeithiau posibl ar ecoleg sy'n gysylltiedig â'r cam gweithredu.

5.4 Lliniaru

- 5.4.1 Mae mesurau lliniaru a ymwreiddir yn cynnwys pennu llwybrau a lleoli mewn modd sensitif er mwyn osgoi derbynyddion amgylchedd ecolegol.
- 5.4.2 Mae mesurau lliniaru arferion da yn cynnwys datblygu OCEMP er mwyn atal, lleihau neu liniaru effeithiau amgylcheddol sylweddol yn ystod y cam adeiladu.
- 5.4.3 Mae cynlluniau lliniaru hanfodol yn cynnwys adfer cynefinoedd yn yr ardaloedd yr effeithir arnynt. Gallai mesurau cydadfer olygu creu neu wella cynefinoedd oddi ar y safle os na ellir osgoi'r effaith. Bydd unrhyw ofynion Buddiannau Net yn cael eu nodi yn adroddiad Buddiannau Net, y Cynllun Rheoli Cynefinoedd Amlinellol a chynlluniau rheoli trosfwaol eraill, yn ôl yr angen. Mae'r Prosiect wedi ymrwymo i gyflawni budd net o 10% o leiaf, sy'n gyson â gofynion Buddiannau Net Prosiect Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol sydd i fod i ddod i rym ddiwedd mis Tachwedd 2025, gan gyrraedd budd net Cymru ar gyfer safonau bioamrywiaeth hefyd.

5.5 Asesiad Pellach

- 5.5.1 Bydd yr asesiad hwn yn cael ei wella yn ystod y cyfnod pontio o'r PEIR i'r Datganiad Amgylcheddol wrth i arolygon cynefinoedd a rhywogaethau a warchodir fynd rhagddynt, ynghyd â chydweithredu parhaus ag ymgylgoreion statudol a rhanddeiliaid.

6 Adaryddiaeth

6.1 Cyflwyniad

- 6.1.1 Mae'r asesiad Adaryddiaeth rhagarweiniol wedi casglu gwybodaeth drwy astudiaeth desg ac arolygon.
- 6.1.2 Nid yw'r Prosiect yn cynnwys unrhyw safleoedd statudol a ddynodwyd oherwydd eu budd adaregol ac nid oes yr un ohonynt yn bresennol o fewn 10km.
- 6.1.3 Mae arolygon gweithgareddau hedfan wedi cofnodi hediadau gan 18 o rywogaethau o fewn 500m i'r Prosiect. I bob un ond dwy rywogaeth, roedd nifer yr hediadau a gofnodwyd yn isel. Fodd bynnag, cofnodwyd barcud coch a gwylan gefnddu leiaf yn gymharol aml.

6.2 Adeiladu

- 6.2.1 Yn ystod y cam adeiladu, gall gwaith arwain yn anuniongyrchol at gollu cynefinoedd a dadleoli adar oddi wrth ardaloedd chwilota am fwyd a nythu. Fodd bynnag, mae'n debygol na fydd effeithiau ar boblogaethau barcudiaid cochion, hebogau tramor, na gwylanod cefnddu bach rhanbarthol yn sylweddol.
- 6.2.2 PEIR Cyfrol 1: Mae Pennod 8 yn amlinellu'r asesiad rhagarweiniol o'r effeithiau posibl ar adaryddiaeth sy'n gysylltiedig â'r cam adeiladu.

6.3 Gweithrediad

- 6.3.1 Yn ystod y cam gweithredu, mae risgiau dadleoli a gwrthdrawiadau wedi eu nodi ar gyfer rhywogaethau adar megis y barcud coch a'r wylan gefnddu fach. Fodd bynnag, mae'n debygol na fydd yr effeithiau yn sylweddol.
- 6.3.2 PEIR Cyfrol 1: Mae Pennod 8 yn amlinellu'r asesiad rhagarweiniol o'r effeithiau posibl ar adaryddiaeth sy'n gysylltiedig â'r cam gweithredu.

6.4 Lliniaru

- 6.4.1 Bydd Cynllun Gwarchod Adar yn cael ei lunio sy'n bwysig ar gyfer diogelu rhywogaethau adar a'u cynefinoedd yn ystod y cam adeiladu. Bydd yn amlinellu

protocolau i gydymffurfio â chyfreithiau gwarchod rhywogaethau, yn enwedig Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981, gan ganolbwyntio ar safleoedd nythu, clwydi ac ardaloedd bwydo. Bydd Clerc Gwaith Ecolegol yn goruchwyllo gweithrediad y cynllun yn unol â'r OCEMP.

- 6.4.2 Disgwylir i effeithiau posibl ar adar yn ystod cam gweithredu y Prosiect gynnwys gwrthdrawiadau â gwifrau llinell uwchben yn bennaf. Er mwyn lliniaru'r risg hon, gellir nodi'r gwifrau â dargyfeiryddion adar, er mwyn gwella gwelededd a lleihau'r tebygolrwydd o wrthdrawiadau. Bydd arolygon gweithgareddau hedfan ar hyd y llinell bŵer yn pennu ardaloedd lle mae rhywogaethau sensitif mewn mwy o berygl o wrthdrawiad. Bydd yr adrannau risg uchel hyn, megis y rhai sy'n croesi llwybrau hedfan arferol neu ger lleoliadau adar pwysig, yn cael eu marcio i gynyddu gwelededd ac atal gwrthdrawiadau.

6.5 Asesiad Pellach

- 6.5.1 Cynhelir arolygon maes eraill cyn cyflwyniad y Datganiad Amgylcheddol. Bydd y rhain yn cynnwys parhau i wyllo manau ffafriol i gasglu gwybodaeth am weithgareddau hedfan am y gymuned adar sy'n bridio a'r gymuned adar nad yw'n bridio, cynnal arolygon adar sy'n bridio ar droed ac arolygon wedi eu targedu ar adar ysglyfaethus sy'n bridio. Cynhelir cydweithrediad parhaus ag ymgynghoreion statudol a rhanddeiliaid pwysig.

7 Yr Amgylchedd Hanesyddol

7.1 Cyflwyniad

7.1.1 Mae'r asesiad Amgylchedd Hanesyddol rhagarweiniol wedi casglu gwybodaeth drwy astudiaeth desg ac arolygon.

7.1.2 Lleolir yr asedau treftadaeth sydd wedi eu dynodi a'r rhai nad ydynt wedi eu dynodi a ganlyn yn gyfan gwbl neu'n rhannol o fewn ardal yr astudiaeth:

- 43 o Henebion Cofrestredig.
- 475 o adeiladau rhestredig (pum gradd I, 26 Gradd II* a 444 Gradd II).
- Wyth Ardal Gadwraeth.
- Un Ardd a Pharc Hanesyddol Cofrestredig.
- 5,577 o asedau treftadaeth nad ydynt wedi eu dynodi a gofnodwyd ar y Cofnodion Amgylchedd Hanesyddol.

7.2 Adeiladu

7.2.1 Yn ystod y cam adeiladu, bydd Neuadd Pen-y-Lan, Adeilad Rhestredig (Gradd II*), yn profi sŵn a symudiad peiriannau adeiladu a fydd yn effeithio ar leoliad yr ased, sy'n cyfrannu at ei bwysigrwydd. Bydd hyn yn arwain at effaith andwyol cymedrol dros dro, sydd sy'n debygol o fod yn sylweddol ar y cam rhagarweiniol hwn o'r asesiad. Mae Pont 95 dros Gamlas Sir Drefaldwyn, ger Rhif 1 The Locks, gerllaw i fynediad dros dro ceg cloch. Mae'r bont yn gul ac wedi'i nodi ar arwydd ffordd ei fod yn wan. Mae asesiad rhagarweiniol wedi nodi y byddai defnyddio'r bont hon gan draffig adeiladu trwm yn achosi effaith ffisegol sy'n debygol o fod yn sylweddol. Mae Storfa Tatws Bryn Gwyn (ased treftadaeth heb ei ddynodi) wedi'i lleoli o fewn compownd yr is-orsaf gasglu. Byddai adeiladu'r is-orsaf yn gofyn am gael gwared ar yr ased hwn yn gyfan gwbl gan arwain at effaith andwyol gymedrol i fach a ffydd yn sylweddol. Byddai gweithredu mesurau amddiffynnol yn lleihau hyn i ddim a chynigir y byddai'r mesurau hyn yn cael eu sicrhau drwy'r CEMP.

7.2.2 Yn ystod y cam adeiladu, bydd Ffos Cylch Pont Mathrafal a Thwmpath Pont Mathrafal yr Ased Treftadaeth nad ydynt wedi eu Dynodi yn profi symudiad llwyr yr asedau, a fydd yn arwain at effaith andwyol gymedrol sy'n debygol o fod yn sylweddol yn ystod y cam rhagarweiniol hwn o'r asesiad.

7.2.3 PEIR Cyfrol 1: Mae Pennod 9 yn amlinellu'r asesiad rhagarweiniol o'r effeithiau posibl ar yr amgylchedd hanesyddol sy'n gysylltiedig â'r cam adeiladu.

7.3 Gweithrediad

- 7.3.1 Yn ystod y cyfnod gweithredu, mae'n debygol na fydd yr effeithiau posibl ar Henebion Cofrestredig, Adeiladau Rhestredig ac ardaloedd Cadwraeth yn sylweddol.
- 7.3.2 PEIR Cyfrol 1: Mae Pennod 9 yn amlinellu'r asesiad rhagarweiniol o'r effeithiau posibl ar yr amgylchedd hanesyddol sy'n gysylltiedig â'r cam gweithredu.

7.4 Lliniaru

- 7.4.1 Mae mesurau lliniaru a ymwreiddir yn cynnwys pennu llwybrau a lleoli mewn modd sensitif er mwyn osgoi derbynyddion amgylchedd hanesyddol.
- 7.4.2 Mae mesurau lliniaru arferion da yn cynnwys datblygu OCEMP er mwyn atal, lleihau neu liniaru effeithiau amgylcheddol sylweddol yn ystod y cam adeiladu.
- 7.4.3 Mae mesurau lliniaru hanfodol yn debygol o gynnwys:
- Arolygon tirwedd a/neu waith cloddio er mwyn cofnodi presenoldeb nodweddion sy'n bodoli cyn cael gwared arnynt neu cyn iddynt gael eu torri.
 - Cofnodi adeiladau hanesyddol cyn cael gwared ar asedau adeiledig nad ydynt wedi eu dynodi.
 - Lliniaru archaeolegol ar ffurf cloddio a chofnodi. Bydd ffurf a rhychwant y lliniaru yn cael eu datblygu mewn trafodaeth gydag ymgynghoreion statudol ac fe'u nodir trwy Cynllun Ymchwilio Ysgrifenedig Amlinellol a fydd yn cael eu cyflwyno gyda'r cais DCO.
 - Strategaeth Rheoli Treftadaeth drafft a fydd yn cwmpasu'r holl dechnegau lliniaru gofynnol.

7.5 Asesiad Pellach

- 7.5.1 Bydd yr asesiad hwn yn cael ei fireinio ymhellach rhwng y PEIR a'r Datganiad Amgylcheddol wrth i'r asesiad sylfaenol barhau i gael ei fireinio a'i ddiweddarau, ac wrth i ddyluniad y Prosiect fynd rhagddo. Bydd Adroddiad Sylfaenol diweddaredig yn cael ei gynnwys gyda'r Datganiad Amgylcheddol. Er mwyn llywio ymhellach y ddealltwriaeth o'r dreftadaeth ddiwylliannol yn ardal yr astudiaeth, bydd rhaglen o ymchwiliadau archeolegol anymwthiol, ac ymwthiol os yw'n briodol, yn cael ei chwblhau. Gallai'r ymchwiliadau hyn gynnwys arolwg geoffisegol, asesiad geoarcheolegol a gwerthuso ffos treial archeolegol. Bydd

cynrychiolwyr perthnasol yr awdurdod lleol yn ymgysylltu ar gwmpas ac amseru y gwaith ychwanegol hwn.

- 7.5.2 Bydd sylwadau o waith ymgynghori statudol yn helpu i ddatblygu dyluniad ymchwiliadau archeolegol pellach er mwyn hysbysu'r Datganiad Amgylcheddol ynghyd â nodi ardaloedd ac asedau sydd o fudd penodol i ymgynghoreion a rhanddeiliaid statudol. Bydd ymgysylltiad â rhanddeiliaid yn parhau hyd at a thu hwnt i waith ymgynghori statudol, hyd at gyflwyniad y DCO a thrwy'r gwaith archwilio.

8 Traffig a Thrafnidiaeth

8.1 Cyflwyniad

- 8.1.1 Mae'r asesiad Traffig a Thrafnidiaeth rhagarweiniol wedi casglu gwybodaeth drwy astudiaeth desg.
- 8.1.2 Mae sawl ffordd A sy'n rhyngweithio ag ardal yr astudiaeth ac sy'n darparu cyswllt posibl rhwng y llwybr arfaethedig ar gyfer y llinell uwchben a'r Rhwydwaith Ffyrdd Strategol. Mae'r rhain yn cynnwys yr A458, A483, A490, A495 a'r A5 y maent i gyd yn gerbyttyrdd unffrwd sy'n ddarostyngedig i'r Terfyn Cyflymder Cenedlaethol.
- 8.1.3 Mae nifer o ffyrdd B, C a ffyrdd heb eu dosbarthu hefyd yn ardal yr astudiaeth, a rheilffordd, er mai rhyngweithio cyfyngedig y disgwylir rhwng y Prosiect â'r llwybrau hyn.
- 8.1.4 Mae cyfanswm o 124 o Hawliau Tramwy Cyhoeddus, 103 o fewn Ffin Dosbarth Powys ac 21 o fewn Ffin Dosbarth Swydd Amwythig sydd wedi eu nodi.

8.2 Adeiladu

- 8.2.1 Mae prif effeithiau traffig y Prosiect yn ymwneud â mwy o draffig ar ffyrdd mynediad a ddefnyddir gan gerbydau a gweithwyr adeiladu. Er na ddisgwyl i'r cynnydd mewn traffig adeiladu fynd y tu hwnt i'r trothwyon ar gyfer effeithiau sylweddol, mae materion posibl yn cynnwys pennu llwybrau traffig drwy drefi, sy'n effeithio ar gerddwyr ac yn peri oediadau. Gallai gweithgaredd adeiladu arwain at gau ffyrdd dros dro neu Hawliau Tramwy Cyhoeddus, oediadau i yrwyr a bysiau, ac effeithiau ar ddefnyddwyr eraill y ffordd. Dangosir derbynyddion sensitif mewn cysylltiad â'r newidiadau hyn yn y PEIR Cyfron 1; Ffigur 10.1. Bydd asesiad arall yn y Datganiad Amgylcheddol yn pennu arwyddocâd cyffredinol yr effeithiau hyn ar y prif lwybrau mynediad.

8.3 Gweithrediad

- 8.3.1 Yn ystod y cam gweithredu, bydd y Prosiect yn cael ei gynnal gan nifer cyfyngedig o weithredwyr ar draws y safle, gyda theithiau anaml ychwanegol yn gysylltiedig â chynnal a chadw/arolygu neu atgyweiriadau yn ôl yr angen. O'r herwydd, mae asesiad o'r effeithiau yn ystod y cam gweithredol wedi ei hepgor gan ei bod yn annhebygol y bydd effeithiau sylweddol.

8.4 Lliniaru

- 8.4.1 Mae mesurau lliniaru a ymwreiddir yn cynnwys pennu llwybrau a lleoli mewn modd sensitif er mwyn osgoi derbynyddion amgylchedd traffig a thrafnidiaeth.
- 8.4.2 Mae mesurau lliniaru arferion da yn cynnwys datblygu OCEMP er mwyn atal, lleihau neu liniaru effeithiau amgylcheddol sylweddol yn ystod y cam adeiladu.
- 8.4.3 Bydd Cynllun Rheoli Traffig Adeiladu Amlinellol (OCTMP) yn rheoli llwybrau cerbydau adeiladu er mwyn atal tagfeydd a phrofi capasiti y seilwaith lleol. Bydd ymdrechion yn lleihau deunyddiau a fewnforir er mwyn gostwng niferoedd y cerbydau nwyddau trwm. Bydd cynlluniau ar gyfer cludo gweithwyr ar y safle, hyfforddiant ar gyfer cerbydau glân, mesurau rheoli traffig, a'r wybodaeth ddiweddaraf a gyfathrebir am symudiadau traffig hefyd ar waith er mwyn cynnal safonau uchel a lliniaru effeithiau.
- 8.4.4 Ar hyn o bryd, ni ystyrir bod unrhyw fesurau lliniaru hanfodol yn angenrheidiol yn seiliedig ar yr asesiad ar y cam hwn.

8.5 Asesiad Pellach

- 8.5.1 Yn ystod y cyfnod rhwng camau y PEIR a'r Datganiad Amgylcheddol, bydd yr asesiad traffig yn cael ei ddatblygu ymhellach yn seiliedig ar ddatblygiad dyluniad, sylwadau o waith ymgynghori statudol ac ymgysylltiad â rhanddeiliaid.
- 8.5.2 Pan maent ar gael, cafwyd lliw traffig sylfaenol o beiriannau cyfrif traffig statig presennol yr Adran Drafndiaeth. Mewn achosion lle bernir nad yw'r data traffig sydd ar gael yn ddefnyddiadwy mwyach neu pan nad oes unrhyw gyfrifon traffig presennol ar gael; bydd arolygon Cyfrif Traffig yn Awtomatig yn cael eu comisiynu.
- 8.5.3 Bydd asesiad ychwanegol o effeithiau traffig adeiladu yn cael ei gynnal ar hyd y Llwybrau Adeiladu Arfaethedig er mwyn cadarnhau sensitifrwydd cyswllt ffordd a nodi lle mae'r lliw a gynhyrchir gan y Prosiect yn achosi cynyddu o 30% neu 10% mewn traffig sylfaenol a Cherbydau Nwyddau Trwm mewn ardaloedd sensitif penodol.

9 Sŵn a Dirgryniad

9.1 Cyflwyniad

- 9.1.1 Mae'r asesiad Sŵn a Dirgryniad rhagarweiniol wedi casglu gwybodaeth drwy astudiaeth desg.
- 9.1.2 Mae'r Prosiect yn croestorri, neu'n dod yn agos at amryw o lwybrau trafndiaeth pwysig, gan gynnwys ffyrdd cenedlaethol a rhanbarthol, yn ogystal â rheilffordd.
- 9.1.3 Lleolir Is-orsaf Casglwr Grug y Mynydd mewn ardal wledig lle nad oes llawer o ffynonellau sŵn gerllaw. Ffordd fach oddeutu 850m i'r de yw'r ffynhonnell sŵn agosaf. Mae tri lleoliad sensitif i sŵn a nodwyd yn y cyffiniau: Bryngwyn, Gawenydd, a Charreg-y-Big, a leolir ar bellteroedd amrywiol oddi wrth y Prosiect.
- 9.1.4 Mae'r ardal o amgylch CSEC Cors y Garreg yn wledig heb lawer o ffynonellau sŵn, ac is-ffordd oddeutu 900m i'r de yw'r agosaf. O amgylch y CSEC, nid oes derbynyddion sensitif i sŵn yn yr ardal astudio 1km.
- 9.1.5 Mae'r ardal o amgylch yr Orsaf Switsio ger Frankton Isaf yn wledig, ac nid oes llawer o ffynonellau sŵn. Y ffynhonnell sŵn agosaf yw'r A495 sy'n rhedeg oddeutu 400m i'r gogledd o'r Prosiect. Mae naw derbynydd sy'n sensitif i sŵn a nodwyd yn ardal yr astudiaeth ac fe'u hamlinellir yn PEIR Cyfrol 1: Pennod 11 ac yn PEIR Cyfrol 2; Ffigur 11.1.

9.2 Adeiladu

- 9.2.1 Yn ystod y cam adeiladu, mae'r cyfrifiadau rhagarweiniol nad ydynt wedi eu lliniaru yn dod i'r casgliad bod posibilrwydd o effeithiau sŵn sylweddol yn ystod yr wythnos a'r penwythnosau, gyda llawer mwy o ormodiant yn ystod y penwythnos oherwydd gostyngiad yn y terfyn. Mae asesiad rhagarweiniol o ddirgryniad wedi nodi bod potensial i effeithiau andwyol sylweddol ddeillio o weithgareddau cywasgu tir (yn ystod adeiladu ffyrdd cludo), er na ddisgwylir i hyd tymor byr y gweithgareddau hyn (llai na 10 diwrnod mewn unrhyw 15 diwrnod yn olynol) mewn unrhyw un lleoliad arwain at effaith andwyol sylweddol, yn amodol ar asesiad manwl pellach yn y Datganiad Amgylcheddol.
- 9.2.2 PEIR Cyfrol 1: Mae Pennod 11 yn amlinellu'r asesiad rhagarweiniol o'r effeithiau posibl ar sŵn a dirgryniad sy'n gysylltiedig â'r cam adeiladu.

9.3 Gweithrediad

- 9.3.1 Ar gam presennol dyluniad y Prosiect, nid yw cynlluniau manwl o'r cyfleusterau statig arfaethedig na lleoliadau unrhyw waith allyrru sŵn a/neu ddirgryniad wedi eu cwblhau ac felly nid yw'n bosibl mesur y sŵn posibl, effeithiau dirgryniad nac unrhyw effaith sylweddol ganlyniadol.

9.4 Lliniaru

- 9.4.1 Mae mesurau lliniaru a ymwreiddir yn cynnwys pennu llwybrau a lleoli mewn modd sensitif er mwyn osgoi derbynyddion amgylchedd sŵn a dirgryniad.
- 9.4.2 Mae mesurau lliniaru arferion da yn cynnwys datblygu OCEMP er mwyn atal, lleihau neu liniaru effeithiau amgylcheddol sylweddol yn ystod y cam adeiladu.
- 9.4.3 Bydd mesurau lliniaru penodol sy'n seiliedig ar y Modd Ymarferol Gorau o reoli sŵn adeiladu yn cynnwys defnyddio offer neu dechnegau gwahanol, tawelyddion gwaith, a rhwystrau megis sgriniau acwstig neu fyndiau pridd, wedi eu haddasu i'r gweithgaredd adeiladu penodol. Bydd mesurau lliniaru penodol sy'n seiliedig ar y Modd Ymarferol Gorau o reoli dirgryniad adeiladu yn cynnwys ymchwilio i'r dasg o ail-alinio'r llwybrau mynediad a halio a defnyddio technegau gwahanol nad ydynt yn ddirgryniol pan fo hynny'n ymarferol, gan ddibynnu ar y gweithgaredd adeiladu penodol. Ym mhob achos, drwy weithredu'r Modd Ymarferol Gorau penodol, rhagwelir y bydd unrhyw effeithiau andwyol oherwydd sŵn adeiladu a dirgryniad yn cael eu hatal a'u lliniaru gymaint â phosibl, heb unrhyw effeithiau sylweddol a ddisgwylir oherwydd sŵn adeiladu.
- 9.4.4 Bydd mesurau lliniaru gweithredol ar gyfer y Prosiect yn gymesur a gallent gynnwys un neu fwy o'r mesurau canlynol:
- Peirianeg—cyfyngu ar y sŵn a gynhyrchir.
 - Cynllun—pellter digonol rhwng ffynhonnell y sŵn a'r derbynyddion sy'n sensitif i sŵn.
 - Ymgorffori dyluniad da: lleihau trosglwyddiad sŵn gymaint â phosibl drwy dirlunio a sgrinio â rhwystrau naturiol neu bwrpasol, gan gynnwys newidiadau topograffig.
 - Gweinyddu—pennu meini prawf sŵn priodol neu amseroedd defnyddio.

9.5 Asesiad Pellach

- 9.5.1 Bydd y broses asesu sŵn a dirgryniad yn cael ei datblygu ymhellach yn ystod camau yr Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol a'r DCO, gan gynnwys diweddariadau i ddyluniad y Prosiect, ymgynghori statudol, ac ymgysylltu â rhanddeiliaid.
- 9.5.2 Mae angen arolygon sŵn sylfaenol i bennu'r lefelau sŵn cychwynnol o amgylch gosodiadau sefydlog megis Is-orsaf Casglwr Grug y Mynydd a Gorsaf Switsio ger Frankton Isaf. Bydd data yr arolwg, ynghyd ag arsylwadau, yn cael eu defnyddio i werthuso sŵn gweithredol y cyfleusterau hyn.

10 Adnoddau Dŵr

10.1 Cyflwyniad

- 10.1.1 Mae'r asesiad Adnoddau Dŵr rhagarweiniol wedi casglu gwybodaeth drwy astudiaeth desg.
- 10.1.2 Mae sawl pwll a llyn yn yr ardal y mae rhai ohonynt wedi eu dynodi at ddibenion cadwraeth natur. Mae'r safleoedd cadwraeth hyn yn cynnwys SoDdGAau, ACAau, a Gwarchodfeydd Natur Lleol.
- 10.1.3 Defnyddir y cyrsiau dŵr yn yr ardal i dynnu dŵr, derbyn, cludo, gwanhau awdurdodedig a gollyngiadau anffurfiol.
- 10.1.4 Bydd y Prosiect yn croesi saith prif afon a thair prif afon nad yw'r Prosiect yn eu croesi ond sy'n llifo drwy ardal yr astudiaeth. Mae ardal yr astudiaeth hefyd yn cynnwys dalgylchoedd cyrff dŵr amrywiol y Gyfarwydeb Fframwaith Dŵr. Mae Parth Gwarchod Ffynhonnell Dalgylch Cyfan a Pharth Perygl Nitradau yn bresennol hefyd.
- 10.1.5 Gorwedda'r rhan fwyaf o'r prosiect ym Mharth Llifogydd 1 (risg isel). Fodd bynnag, mae rhai ardaloedd ym Mharthau Llifogydd 2 a 3, ar hyd prif afonydd yn bennaf.
- 10.1.6 Mae dadansoddiad risg llifogydd dŵr wyneb yn dangos risg isel ar gyfer Is-orsaf Casglwr Grug y Mynydd a Gorsaf Switsio arfaethedig ger lleoliadau Frankton Isaf, gyda rhai ardaloedd risg uwch lleol yn gysylltiedig â llwybrau llif presennol tuag at gyrсияu dŵr.
- 10.1.7 Ar gyfer risg llifogydd dŵr daear, mae amrywioldeb yn ardal yr astudiaeth, gyda risgiau posibl a nodwyd lle gallai dyddodion graean fod wedi eu cysylltu'n hydrologig â chyrсияu dŵr cyfagos.
- 10.1.8 Dangosir derbynyddion amgylchedd dŵr uchod fel y sonnir amdanynt yn PEIR Cyfrol 2; Ffigur 12.1

10.2 Adeiladu

- 10.2.1 Yn ystod y cam adeiladu, mae posibilrwydd o effeithiau ar bob cwrs dŵr, ansawdd y dŵr, storio a thrawsgludo llif llifogydd, risg llifogydd, draenio tir, ac

adnoddau dŵr sydd ar gael. Fodd bynnag, mae'n debygol na fydd yr effeithiau posibl ar adnoddau dŵr yn sylweddol.

- 10.2.2 PEIR Cyfrol 1: Mae Pennod 12 yn amlinellu'r asesiad rhagarweiniol o'r effeithiau posibl ar adnoddau dŵr sy'n gysylltiedig â'r cam adeiladu.

10.3 Gweithrediad

- 10.3.1 Cytunodd yr Arolygiaeth Gynllunio y gellid hepgor effeithiau ar ansawdd dŵr yn ystod gweithrediad ar yr amod bod y mesurau i liniaru'r risgiau o lygru cyrsiau dŵr yn cael eu disgrifio'n glir yn y Datganiad Amgylcheddol a'u sicrhau yn y DCO.
- 10.3.2 Yn ystod y cam gweithredu, mae posibilrwydd o effeithiau hydroforffolegol, storio a thrawsgludo llif llifogydd, risg llifogydd a draenio tir. Fodd bynnag, mae'n debygol na fydd yr effeithiau posibl ar adnoddau dŵr yn sylweddol.
- 10.3.3 PEIR Cyfrol 1: Mae Pennod 12 yn amlinellu'r asesiad rhagarweiniol o'r effeithiau posibl ar adnoddau dŵr sy'n gysylltiedig â'r cam gweithredu.

10.4 Lliniaru

- 10.4.1 Mae mesurau lliniaru a ymwreiddir yn cynnwys pennu llwybrau a lleoli mewn modd sensitif er mwyn osgoi derbynyddion amgylchedd adnoddau dŵr.
- 10.4.2 Mae mesurau lliniaru arferion da yn cynnwys datblygu OCEMP er mwyn atal, lleihau neu liniaru effeithiau amgylcheddol sylweddol yn ystod y cam adeiladu.
- 10.4.3 Oherwydd gorlifdir helaeth Afon Efyrynwy, nid yw osgoi gwaith adeiladu yn llwyr yn yr ardal hon yn ymarferol. Felly, bydd mesurau lliniaru yn cael eu rhoi ar waith i ddiogelu rhag effeithiau negyddol ar risg llifogydd yn ystod y gwaith adeiladu a'r cam gweithredu. Gallai'r mesurau hyn gynnwys cydadfer storfa gorlifdir a sicrhau bod dŵr yn llifo drwy'r gorlifdir yn ddi-rwystr.

10.5 Asesiad Pellach

- 10.5.1 Mae'r camau nesaf yn cynnwys datblygu asesiad sgrinio y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr a'r Asesiad o'r Bygythiad Llifogydd. Cynigir arolwg geomorffolegol o Afon Efyrynwy i hysbysu'r Datganiad Amgylcheddol. Bydd canfyddiadau'r rhain yn llywio'r asesiad llawn a wneir ar gyfer y Datganiad Amgylcheddol.

- 10.5.2 Gan gydnabod natur weithredol Afon Efyrnwy, cynigir astudiaeth geomorffolegol i ddeall ei hymddygiad ymhellach, gyda'i chanlyniadau'n arwain mesurau angenrheidiol ychwanegol y tu hwnt i strategaethau lliniaru safonol.
- 10.5.3 Bydd yr asesiad a wneir yn y Datganiad Amgylcheddol yn ystyried unrhyw newidiadau dylunio (e.e., o ganlyniad i ymgysylltu â rhanddeiliaid neu ddatblygu'r dyluniad) ar ôl cwblhau'r PEIR. Cynhelir cydweithrediad parhaus ag ymgynghoreion statudol a rhanddeiliaid pwysig.

11 Cyflyrau y Ddaear, Daeareg a Hydroddaeareg

11.1 Cyflwyniad

- 11.1.1 Mae'r asesiad o Gyflyrau'r Ddaear, Daeareg a Hydroleg ragarweiniol wedi casglu gwybodaeth drwy astudiaeth desg.
- 11.1.2 Mae'r Prosiect yn cynnwys daeareg arwynebol amrywiol, gan gynnwys mawn, til, a dyddodion eraill, yn ogystal â daeareg creigwely amrywiol gyda ffawtliniau lluosog.
- 11.1.3 Mae ardaloedd diogelu safleoedd a mwynau arwyddocaol, megis Adolygiad Cadwraeth Daearegol, Safleoedd Geoamrywiaeth Pwysig y Rhanbarth (RIGS), SoDdGAau, Parthau Gwarchod Ffynhonnell, Ecosystemau Daearol sy'n Ddibynnol ar Ddŵr Daear, yn bresennol yn ardal yr astudiaeth.
- 11.1.4 Mae'r Prosiect yn cynnwys ffynonellau halogedig posibl, gan gynnwys nodweddion dŵr hanesyddol, rheilffordd segur, a rheilffordd weithredol.
- 11.1.5 Mae tyniadau dŵr daear trwyddedig presennol wedi eu canoli yn y gogledd, o amgylch Croesoswallt.
- 11.1.6 Mae'r prosiect ac ardal yr astudiaeth yn cynnwys dyfrhaenau Eilaidd A ac Eilaidd (yn ddiwahaniaeth).
- 11.1.7 Mae nifer o ffynhonnau hanesyddol a tharddellau o fewn parth clustog o 500m o'r Prosiect sydd wedi eu nodi.

11.2 Adeiladu

- 11.2.1 Yn ystod y cam adeiladu, mae posibilrwydd o effeithiau ar safleoedd o bwys daearegol, cronfeydd mwynol, cyflenwadau dŵr cyhoeddus a phreifat, tir wedi'i wneud gan gynnwys ardaloedd halogi presennol, dyfrhaenau, Parthau Gwarchod Ffynhonnell, Ecosystemau Daearol sy'n Ddibynnol ar Ddŵr Daear, tarddelli a chyrсияu dŵr. Fodd bynnag, mae'n debygol na fydd yr effeithiau posibl yn sylweddol. Pan na ellir cadarnhau'r posibilrwydd o effeithiau sylweddol tebygol ar y cam hwn, bydd hyn yn ddarostyngedig i asesiad manwl yn y Datganiad Amgylcheddol.

- 11.2.2 PEIR Cyfrol 1: Mae Pennod 13 yn amlinellu'r asesiad rhagarweiniol o'r effeithiau ar gyflyrau y ddaear, daeareg a hydroddaeareg sy'n gysylltiedig â'r cam adeiladu.

11.3 Gweithrediad

- 11.3.1 Yn ystod y cam gweithredu, mae posibilrwydd o effeithiau ar safleoedd o bwys daearegol, cronfeydd mwynol, cyflenwadau dŵr, dyfrhaenau, Parthau Gwarchod Ffynhonnell, Ecosystemau Daearol sy'n Ddibynnol ar Ddŵr Daear a tharddelli. Fodd bynnag, mae'n debygol na fydd yr effeithiau posibl yn sylweddol. Pan na ellir cadarnhau'r posibilrwydd o effeithiau sylweddol tebygol ar y cam hwn, bydd hyn yn ddarostyngedig i asesiad manwl yn y Datganiad Amgylcheddol.
- 11.3.2 PEIR Cyfrol 1: Mae Pennod 13 yn amlinellu'r asesiad rhagarweiniol o'r effeithiau ar gyflyrau y ddaear, daeareg a hydroddaeareg sy'n gysylltiedig â'r cam gweithredu.

11.4 Lliniaru

- 11.4.1 Mae mesurau lliniaru a ymwreiddir yn cynnwys pennu llwybrau a lleoli mewn modd sensitif er mwyn osgoi derbynyddion amgylchedd cyflyrau'r ddaear, daeareg a hydroleg.
- 11.4.2 Mae mesurau lliniaru arferion da yn cynnwys datblygu OCEMP er mwyn atal, lleihau neu liniaru effeithiau amgylcheddol sylweddol yn ystod y cam adeiladu.
- 11.4.3 Cynhelir asesiadau ychwanegol ar gyfer risgiau halogi, a bydd mesurau adfer yn cael eu cynnig os oes angen. Os na ellir osgoi risg i ddyfroedd rheoledig megis cyflenwadau dŵr preifat a chyhoeddus (ffynhonnau), parthau gwarchod ffynhonnell, tarddelli, ecosystemau daearol sy'n ddibynnol ar ddŵr daear a chysiau dŵr, cynhelir Asesiadau Risg Gwaith Sylfaen gyda mesurau lliniaru. Bydd ymchwiliadau amgylcheddol a geodechnegol yn arwain strategaethau adfer, gan gynnwys strategaeth geogadwraeth ar gyfer safleoedd penodol. Nodir mesurau penodol er mwyn lleihau effeithiau sylweddol tebygol ar gyflyrau y ddaear.

11.5 Asesiad Pellach

- 11.5.1 Cynhelir ymgynghoriad parhaus ag ymgynghoreion statudol a rhanddeiliaid pwysig er mwyn gwella'r asesiad o gyflyrau sylfaenol.

- 11.5.2 Yn unol â chanllawiau, cynhelir Asesiad Risg Rhagarweiniol yn rhan o'r Datganiad Amgylcheddol a phan fo hynny'n angenrheidiol, cynhelir arolygon ar droed ac ymchwiliadau daear wedi eu targedu.

12 Ansawdd Aer

12.1 Cyflwyniad

- 12.1.1 Mae'r asesiad Ansawdd Aer rhagarweiniol wedi casglu gwybodaeth drwy astudiaeth desg.
- 12.1.2 Nid oes unrhyw Ardaloedd Rheoli Ansawdd Aer datganedig ym Mhowys ar hyn o bryd. Mae dwy Ardal Rheoli Ansawdd Aer a nodwyd yn Swydd Amwythig (Ardal Rheoli Ansawdd Aer Rhif 3 yr Amwythig ac Ardal Rheoli Ansawdd Aer Bridgnorth Pound Street), ond maent 20km oddi wrth y Prosiect.
- 12.1.3 Ni adroddwyd unrhyw ormodiant o ran amcan y Strategaeth Ansawdd Aer NO₂ cymedrig blynyddol ym Mhowys. Adroddwyd dau ormodiant yn Swydd Amwythig, ond maent yn digwydd dros 20km oddi wrth y Prosiect.
- 12.1.4 Dengys data gan Defra fod NO₂ cefndir 2024 a chrynodeiadau deunydd gronynnol yng nghyffiniau'r Prosiect ymhell islaw'r gwerthoedd Strategaeth Ansawdd Aer cymedrig blynyddol perthnasol.

12.2 Adeiladu

- 12.2.1 Yn ystod y cam adeiladu, mae'r effeithiau posibl yn cynnwys llwch adeiladu sy'n deillio o'r safle adeiladu, gwaith cloddio a nodiwyd a allai effeithio ar dderbynyddion dynol ac ecolegol. Rhagwelir cynnydd mewn ocsidau nitraidd, nitrogen deuocsid a chrynodeiadau deunydd gronynnol ar dderbynyddion dynol ac ecolegol o fewn 200m i lwybrau y traffig adeiladu ac Allyriadau Peiriannau Symudol nad ydynt yn Teithio ar y Ffyrdd (NRMM). Fodd bynnag, mae'n debygol na fydd yr effeithiau'n sylweddol ar ôl gweithredu mesurau lliniaru priodol (fel y nodir yn Nhabl 13 o Atodiad 14.1). Pan na ellir cadarnhau'r posibilrwydd o effeithiau sylweddol tebygol ar y cam hwn, bydd hyn yn ddarostyngedig i asesiad manwl yn y Datganiad Amgylcheddol.
- 12.2.2 PEIR Cyfrol 1: Mae Pennod 14 yn amlinellu'r asesiad rhagarweiniol o'r effeithiau ar ansawdd aer sy'n gysylltiedig â'r cam adeiladu a mesurau lliniaru arfaethedig.

12.3 Gweithrediad

- 12.3.1 Mae'r asesiad o effeithiau ansawdd aer gweithredol a chynnal a chadw yn cael ei hepgor o'r PEIR a'r Datganiad Amgylcheddol. Ar y cam hwn, rhagwelir y

bydd traffig gweithredol yn gyfyngedig, a rhagwelir y bydd teithiau cerbyd islaw meini prawf sgrinio Rheoli Datblygu y Sefydliad Rheoli Ansawdd Aer ac Environmental Protection UK (EPUK).

- 12.3.2 Os rhagwelir y bydd nifer y cerbydau yn newid yn ystod y cam gweithredu a chynnal a chadw yn dilyn y PEIR, bydd y gofyniad i asesu effeithiau gweithredol ar ansawdd aer yn cael ei ailystyried i'w gynnwys yn y Datganiad Amgylcheddol.

12.4 Lliniaru

- 12.4.1 Mae mesurau lliniaru a ymwreiddir yn cynnwys pennu llwybrau a lleoli mewn modd sensitif er mwyn osgoi derbynyddion amgylchedd ansawdd aer.

- 12.4.2 Mae mesurau lliniaru arferion da yn cynnwys datblygu OCEMP er mwyn atal, lleihau neu liniaru effeithiau amgylcheddol sylweddol yn ystod y cam adeiladu.

- 12.4.3 O ganlyniad i'r asesiad llwch adeiladu rhagarweiniol y manylir arno yn PEIR Cyfrol 1: Pennod 14, nodwyd sawl mesur lliniaru sy'n cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i'r hyn a ganlyn:

- Lleoli gweithgareddau oddi wrth ardaloedd sensitif.
- Sicrhau bod cerbydau adeiladu yn cael eu defnyddio'n gyfrifol ac yn cyrraedd safonau allyriadau.
- Rheoli llwch drwy sicrhau nad yw deunyddiau'n cael eu symud yn ddiangen a bod gwaith cloddio a chyflenwadau yn cael eu diogelu.
- Gwahardd coelcerthi a llosgi gwastraff.
- Er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â'r mesurau lliniaru, cynhelir archwiliadau safle dyddiol.

- 12.4.4 Mae rhestr lawn o'r mesurau a nodwyd ar gael yn Nhabl 13 Atodiad 14.1 Methodoleg ac Asesu Llwych Adeiladu.

12.5 Asesiad Pellach

- 12.5.1 Pan fydd manylion am lwybrau a llifoedd traffig adeiladu ar gael, bydd y data traffig yn cael eu sgrinio o'u cymharu â meini prawf sgrinio y Sefydliad Rheoli Ansawdd Aer ac EPUK er mwyn nodi a oes angen asesiadau ac arolygon manwl i nodi effeithiau ansawdd aer oherwydd allyriadau o gerbydau adeiladu. Os rhagwelir y bydd nifer y cerbydau yn newid yn ystod y cam gweithredu yn dilyn y PEIR, bydd y gofyniad i asesu effeithiau gweithredol ar ansawdd aer yn cael ei ailystyried i'w gynnwys yn y Datganiad Amgylcheddol.

- 12.5.2 Ar ôl cwblhau dyluniad y Prosiect ar gyfer y Datganiad Amgylcheddol, bydd yr asesiad llwch adeiladu ac Allyriadau Peiriannau Symudol Nad ydynt yn Teithio ar y Ffyrdd (NRMM) yn cael ei adolygu a'i ddiweddarau os bydd angen.
- 12.5.3 Yn y cyfnod rhwng cam y PEIR a'r Datganiad Amgylcheddol, bydd yr asesiadau a nodir yn y bennod hon yn cael eu datblygu a'u mireinio ymhellach ar sail yr ymgynghoriad statudol a chanlyniadau ymgysylltu parhaus â rhanddeiliaid.

13 Priddoedd ac Amaethyddiaeth

13.1 Cyflwyniad

- 13.1.1 Mae'r asesiad Priddoedd ac Amaethyddiaeth rhagarweiniol wedi casglu gwybodaeth drwy astudiaeth desg.
- 13.1.2 Mae'r Prosiect yn cynnwys amrywiaeth o gymdeithasau pridd, ac mae'r mwyaf cyffredin yn briddgleiog, silt, ac yn dywodlyd.
- 13.1.3 Mae Dosbarthiad Tir Amaethyddol wedi nodi bod pen deheuol y llwybr yn cynnwys tir gradd 3b, 4 a 5. Mae rhan ganolig y llwybr yn cynnwys graddau 2 a 3a yn bennaf, ac mae'r rhan ogleddol yn cynnwys graddau 2, 3 a 4.
- 13.1.4 Glaswelltir yw'r defnydd tir yn y Prosiect yn bennaf, ac mae rhai ardaloedd coetir bach yn rhan Cymru. Mae tir â'r yn dod yn gyffredin o amgylch Llansanffraid-ym-Mechain, gyda chymysgedd mwy cyfartal o â'r a phorfa drwy ran Lloegr o'r llwybr.

13.2 Adeiladu

- 13.2.1 Yn ystod y cam adeiladu, ar y cam rhagarweiniol hwn o'r asesiad, mae'r effeithiau canlynol yn debygol o fod yn sylweddol:
- Posibilrwydd o newidiadau i un neu fwy o swyddogaethau pridd (cynhyrchu biomas; cefnogi cynefinoedd ecolegol, bioamrywiaeth yn y pridd neu ardaloedd tirwedd; carbon pridd; hydroleg pridd; cefnogi adnoddau treftadaeth archeolegol neu ddiwylliannol).
 - Posibilrwydd o golli mawn neu briddoedd organig yn barhaol yn ystod y gwaith adeiladu.
 - Posibilrwydd o golli tir Gorau a Mwyaf Amlbwrpas dros dro ac yn barhaol o ganlyniad i gynhyrchu amaethyddol yn y Prosiect yng Nghymru a Lloegr.
 - Posibilrwydd o aflonyddu dros dro ar ddaliadau tir amaethyddol yn ystod y gwaith adeiladu.
- 13.2.2 PEIR Cyfrol 1: Mae Pennod 15 yn amlinellu'r asesiad rhagarweiniol o'r effeithiau ar briddoedd ac amaethyddiaeth sy'n gysylltiedig â'r cam adeiladu.

13.3 Gweithrediad

- 13.3.1 Yn ystod y cam gweithredu, bydd tir a gymerwyd dros dro gan y Prosiect wedi ei adfer a'i ddychwelyd ar gyfer defnydd amaethyddol, a bydd tir a gymerwyd yn barhaol gan y Prosiect yn parhau heb ei ddefnyddio at ddibenion amaethyddol. Oherwydd y bydd y cam adeiladu yn cynnwys colled dros dro a pharhaol, mae'n debygol na fydd yr effeithiau'n sylweddol.
- 13.3.2 Bydd gwaith cynnal a chadw ac atgyweirio a allai arwain at aflonyddu ar briddoedd yn ystod y gweithrediad yn cael ei wneud yn unol â dulliau arferion da safonol o drin pridd, felly mae'n debygol na fydd yr effeithiau'n sylweddol.

13.4 Lliniaru

- 13.4.1 Mae mesurau lliniaru a ymwreiddir yn cynnwys pennu llwybrau a lleoli mewn modd sensitif er mwyn osgoi derbynyddion amgylchedd pridd ac amaethyddiaeth.
- 13.4.2 Mae mesurau lliniaru arferion da yn cynnwys datblygu OCEMP er mwyn atal, lleihau neu liniaru effeithiau amgylcheddol sylweddol yn ystod y cam adeiladu.
- 13.4.3 Nid yw'r asesiad a wnaed yn y PEIR hwn wedi nodi unrhyw ofynion am fesurau lliniaru hanfodol ar gyfer priddoedd ac amaethyddiaeth ar y cam hwn.

13.5 Asesiad Pellach

- 13.5.1 Bydd adroddiad Dosbarthiad Tir Amaethyddol ac arolygon mawn yn cael ei gwblhau cyn cwblhau'r Datganiad Amgylcheddol. Bydd yr wybodaeth hon yn cefnogi'r asesiad o'r effeithiau ar dir Gorau a Mwyaf Amlbwrpas a mawn, pan maent yn bresennol. Bydd ymgynghori â'r Gwasanaeth Cyngor Ansawdd Tir a Natural England yn parhau i gadarnhau y cytunir ar y fethodoleg i'w defnyddio ar gyfer arolygon Dosbarthiad Tir Amaethyddol.

14 Iechyd a Llesiant

14.1 Cyflwyniad

- 14.1.1 Mae'r asesiad Iechyd a Llesiant rhagarweiniol wedi casglu gwybodaeth drwy astudiaeth desg.
- 14.1.2 Lefel o amddifadedd cymedrol sydd gan Bowys a Swydd Amwythig.
- 14.1.3 Mae'r boblogaeth y cyfyngir arnynt (yn hytrach na'u hatal) rhag ymgymryd â gweithgareddau dyddiol yn ardal yr astudiaeth yn cyd-fynd yn fras â'r cyfartaleddau cenedlaethol o ran anghydraddoldeb cul presennol.
- 14.1.4 Mae'n annhebygol y bydd y gwasanaeth gofal iechyd yn ardal yr astudiaeth o dan straen sylweddol.
- 14.1.5 Er bod llawer o nodweddion y boblogaeth gyffredinol yn bodloni'r meini prawf ar gyfer sensitifrwydd isel, mae'r adnoddau a rennir rhwng y Prosiect a'r boblogaeth hon, yn ogystal â'r rhagolygon cymunedol fel y'u cynrychiolir gan sylwadau rhanddeiliaid, yn dangos sensitifrwydd ychydig yn uwch. Am y rhesymau hyn, nodwyd sensitifrwydd Iechyd a Llesiant y boblogaeth gyffredinol a derbynyddion grwpiau sy'n agored i niwed yn ardal yr astudiaeth fel canolig.

14.2 Adeiladu

- 14.2.1 Yn ystod y cam adeiladu, bydd effeithiau posibl yn gysylltiedig yn bennaf ag:
- Asedau ffisegol y Prosiect yn arwain at newidiadau mewn amwynder gweledol.
 - Traffig adeiladu yn arwain at newidiadau i lifoedd traffig.
 - Gweithgareddau adeiladu yn arwain at newidiadau yn y sŵn a'r dirgryniad a gynhyrchir.
 - Gweithgareddau adeiladu yn rhyngweithio â'r seilwaith presennol yn y gorlifdir a'r croesfannau cyrsiau dŵr, gan arwain at newidiadau yn y risg llifogydd a'r ansawdd dŵr.
 - Gweithgareddau adeiladu yn effeithio ar dir a wnaed a halogiad presennol.
 - Llŵch ac allyriadau adeiladu yn arwain at newidiadau mewn ansawdd aer.
 - Swyddi a gynhyrchir yn ystod y gwaith adeiladu yn arwain at newidiadau i'r economi leol.
 - Gweithgareddau adeiladu ac ymgynghoriadau cyhoeddus yn arwain at newidiadau yn iechyd meddwl y cyhoedd.

- 14.2.2 Er hynny, mae'n debygol na fydd yr effeithiau yn ystod y cam adeiladu yn sylweddol.
- 14.2.3 PEIR Cyfrol 1: Mae Pennod 16 yn amlinellu'r asesiad rhagarweiniol o'r effeithiau ar iechyd a llesiant sy'n gysylltiedig â'r cam adeiladu.

14.3 Gweithrediad

- 14.3.1 Mae'r effeithiau posibl ar iechyd a llesiant sy'n gysylltiedig â newid amgylcheddol yn ystod y cam gweithredu wedi eu hepgor o'r PEIR fel y cytunwyd yn y farn gwmpasu.
- 14.3.2 Bydd y Prosiect yn cael ei ddylunio a'i weithredu yn unol â chanllawiau sy'n gysylltiedig â Maes Electromagnetig. Fodd bynnag, mae canfyddiad o risg o hyd sy'n gysylltiedig â Meysydd Electromagnetig sy'n arwain at newidiadau yn iechyd meddwl y cyhoedd. Mae'n debyg na fydd hyn yn sylweddol.

14.4 Lliniaru

- 14.4.1 Mae mesurau lliniaru a ymwreiddir yn cynnwys pennu llwybrau a lleoli mewn modd sensitif er mwyn osgoi derbynyddion amgylchedd iechyd a llesiant.
- 14.4.2 Mae mesurau lliniaru arferion da yn cynnwys datblygu OCEMP er mwyn atal, lleihau neu liniaru effeithiau amgylcheddol sylweddol yn ystod y cam adeiladu.
- 14.4.3 Manylir ar fesurau lliniaru hanfodol ychwanegol yn gysylltiedig â newid amgylcheddol sy'n gysylltiedig ag iechyd yn PEIR Cyfrol 1: Pennod 6; Pennod 10; Pennod 11; Pennod 12; Pennod 13; Pennod 14; a Phennod 19.
- 14.4.4 Bydd adroddiad cydymffurfio â Maes Electromagnetig yn cael ei ddarparu i nodi'r dystiolaeth ar gyfer lefelau Maes Electromagnetig a fydd yn deillio o gadw'r Prosiect ar lefel na fydd yn arwain at effeithiau ar iechyd.

14.5 Asesiad Pellach

- 14.5.1 Bydd asesiad Datganiad Amgylcheddol Iechyd a Llesiant yn cael ei ddatblygu ymhellach ar sail yr ymgynghoriad statudol a/neu ymgysylltiad â rhanddeiliaid, pan fo hynny'n berthnasol, i'w gynnal rhwng cam y PEIR a'r Datganiad Amgylcheddol.

- 14.5.2 Bydd y Datganiad Amgylcheddol yn ymgorffori ac yn defnyddio canlyniadau data arolygon a gesglir yn dilyn PEIR yn ogystal â chanfyddiadau asesu o benodau eraill yr ystyrir eu bod yn berthnasol i'r asesiad iechyd a llesiant.

15 Damweiniau Mawr a Thrychinebau

15.1 Cyflwyniad

15.1.1 Mae'r asesiad Damweiniau Mawr a Thrychinebau rhagarweiniol wedi casglu gwybodaeth drwy astudiaeth desg.

Adroddiad Cwmpasu

15.1.2 Arfarnwyd y Damweiniau Mawr a Thrychinebau posibl a allai godi oherwydd y Prosiect yn yr Adroddiad Cwmpasu a gyflwynwyd i'r Arolygiaeth Gynllunio ar 23 Ionawr 2024, gan gynnwys:

- Damweiniau ffisegol wrth adeiladu'r Prosiect e.e. craen yn disgyn.
- Damweiniau trydanol sy'n gysylltiedig â chomisiynu'r seilwaith.
- Tân/ffrwydrad yn ystod y cam adeiladu.
- Bygythiadau diogelwch.
- Peryglon allanol.
- Ymyrraeth allanol.
- Tywydd garw.

15.2 Adeiladu

15.2.1 Yn ystod y cam adeiladu, mae'r effeithiau posibl yn cynnwys:

- Damweiniau corfforol sy'n arwain at farwolaeth gweithwyr.
- Tân sy'n cynnwys tanwydd diesel neu ddeunyddiau llosgadwy, yn ogystal â ffrwydradau neu sylweddau peryglus a ryddheir.
- Gweithredoedd gelyniaethus yn erbyn y Prosiect a'r gweithlu cysylltiedig.
- Tywydd garw sy'n effeithio ar y broses o adeiladu'r Prosiect.

15.2.2 Byddai'r Ceisydd yn cymhwyso fframwaith rheoli risg cynhwysfawr i leihau risgiau gymaint ag y bo hynny'n rhesymol ymarferol ac yn sicrhau nad oes unrhyw effeithiau sylweddol drwy gydol cylch bywyd y Prosiect. Felly, ystyrir bod tebygolrwydd y digwyddiadau Damweiniau Mawr a Thrychinebau posibl hyn mor isel fel nad yw'r risgiau'n debygol o fod yn sylweddol.

15.2.3 PEIR Cyfrol 1: Mae Pennod 17 yn amlinellu'r asesiad rhagarweiniol o'r effeithiau damweiniau mawr a thrychinebau sy'n gysylltiedig â'r cam adeiladu.

15.3 Gweithrediad

15.3.1 Yn ystod y cam gweithredu, mae'r effeithiau posibl yn cynnwys:

- Damweiniau ffisegol megis strwythurau uwchben y ddaear yn disgyn.
- Damweiniau trydanol sy'n gysylltiedig â chomisiynu'r seilwaith, a bydd angen ystyried pwyntiau cysylltu â'r grid presennol.
- Tân neu ffrwydrad a allai ddigwydd yn un o'r is-orsafoedd.
- Aflonyddwch trydydd parti neu ddifrod i'r seilwaith mewn camgymeriad sy'n arwain at drydanu.
- Tywydd garw sy'n effeithio ar y seilwaith.

15.3.2 Byddai'r Ceisydd yn cymhwyso fframwaith rheoli risg cynhwysfawr i leihau risgiau gymaint ag y bo hynny'n rhesymol ymarferol ac yn sicrhau nad oes unrhyw effeithiau sylweddol drwy gydol cylch bywyd y Prosiect. Felly, ystyrir bod tebygolrwydd y digwyddiadau Damweiniau Mawr a Thrychinebau posibl hyn mor isel fel nad yw'r risgiau'n debygol o fod yn sylweddol.

15.3.3 PEIR Cyfrol 1: Mae Pennod 17 yn amlinellu'r asesiad rhagarweiniol o'r effeithiau damweiniau mawr a thrychinebau sy'n gysylltiedig â'r cam gweithredu.

15.4 Lliniaru

15.4.1 Bydd y Ceisydd yn cymhwyso fframwaith rheoli risg cynhwysfawr i leihau risgiau gymaint ag y bo hynny'n rhesymol ymarferol ac yn sicrhau nad oes unrhyw effeithiau sylweddol drwy gydol cylch bywyd y Prosiect. Felly, ystyrir bod tebygolrwydd y digwyddiadau Damweiniau Mawr a Thrychinebau posibl hyn mor isel fel nad yw'r risgiau'n debygol o fod yn sylweddol.

16 Nwyon Tŷ Gwydr

16.1 Cyflwyniad

- 16.1.1 Mae'r asesiad Nwyon Tŷ Gwydr rhagarweiniol wedi casglu gwybodaeth drwy astudiaeth desg.
- 16.1.2 Defnyddir allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr fel mesur o effaith y Prosiect ar yr hinsawdd. Mae'r cynnydd yn y crynodiad o allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr yn yr atmosffer byd-eang yn achosi newid mewn cyflyrau hinsoddol, gan greu effeithiau newid hinsawdd. Felly bydd unrhyw allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr sy'n codi o ganlyniad i'r Prosiect yn effeithio ar newid hinsawdd.
- 16.1.3 Cyflwynir y data diweddaraf ar allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr sylfaenol ar gyfer Cyngor Sir Powys, Cyngor Swydd Amwythig, Cymru a Lloegr yn Nhabl 2. Mae'r data hyn yn cyflwyno'r allyriadau a allyrrwyd yn ystod cyfnod blynyddol 2022 ar gyfer pob ardal ddaearyddol. Mae'r allyriadau sylfaenol yn rhoi allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr o'r Prosiect yn eu cyd-destun er mwyn pennu maint y newid.

Tabl 2 — Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr sylfaenol (2022) yn lleol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol

Ardal Ddaearyddol		Allyriadau 2022 (tCO _{2e})
Awdurdod Lleol	Cyngor Sir Powys	1,615,800
	Cyngor Swydd Amwythig	2,587,000
Gorllewin Canolbarth Lloegr		32,367,900
Cymru		26,835,800
Lloegr		290,954,00
Cenedlaethol		375,929,300

16.2 Adeiladu

- 16.2.1 Yn ystod y cam adeiladu, amcangyfrifir ar hyn o bryd fod cyfanswm yr allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr sy'n deillio o garbon corfforedig, cludo deunyddiau i'r safle, a defnydd o beiriannau adeiladu yn 50,370 tCO_{2e}. Nid yw unrhyw effeithiau ar yr awyrgylch byd-eang o'r allyriadau hyn, na gallu'r DU i gyrraedd ei chyllidebau carbon yn debygol o fod yn sylweddol.

16.3 Gweithrediad

- 16.3.1 Yn ystod y cam gweithredu, amcangyfrifir ar hyn o bryd fod cyfanswm yr allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr sy'n codi yn 51,560 tCO₂e. Nid yw unrhyw effeithiau ar yr awyrgylch byd-eang o'r allyriadau hyn, na gallu'r DU i gyrraedd ei chyllidebau carbon yn debygol o fod yn sylweddol.
- 16.3.2 Bydd rhychwant presennol yr allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr sy'n gysylltiedig â newidiadau defnydd tir yn cael eu hasesu yn y Datganiad Amgylcheddol yn rhan o'r Bennod Nwyon Tŷ Gwydr, ar sail yr asesiad Buddiannau Net ar gyfer Bioamrywiaeth.

16.4 Lliniaru

- 16.4.1 Mae mesurau lliniaru a wedi bod yn rhan annatod o leihau effeithiau allyriadau nwy tŷ gwydr y Prosiect.
- 16.4.2 Mae mesurau lliniaru arferion da yn cynnwys datblygu OCEMP er mwyn atal, lleihau neu liniaru effeithiau amgylcheddol sylweddol yn ystod y cam adeiladu.
- 16.4.3 Ar hyn o bryd, nid oes unrhyw fesurau lliniaru hanfodol a gynigir sy'n gysylltiedig â'r asesiad Nwyon Tŷ Gwydr.

16.5 Asesiad Pellach

- 16.5.1 Bydd asesiad Nwyon Tŷ Gwydr yn y Datganiad Amgylcheddol yn cael ei ddatblygu ymhellach ar sail datblygiad y dyluniad a chanfyddiadau ymgynghoriad statudol a/neu cynhelir ymgysylltiad ychwanegol â rhanddeiliaid, pan fo hynny'n berthnasol, rhwng cam y PEIR a'r Datganiad Amgylcheddol.
- 16.5.2 Bydd allyriadau corfforedig o ddeunyddiau adeiladu yn cael eu hailgyfrifo pan fydd niferoedd a'r mathau o ddeunydd wedi eu cwblhau yn ystod y cam Datganiad Amgylcheddol. Bydd allyriadau peiriannau yn cael eu diweddarau ar ôl nodi'r math o beiriant. Bydd allyriadau trafndiaeth yn cael eu hadolygu ar sail pellteroedd trafndiaeth gwirioneddol ar ôl i'r broses o ddod o hyd i ddeunydd gael ei chwblhau.
- 16.5.3 Bydd monitro ac adrodd yn digwydd wrth ddylunio ac adeiladu, er mwyn sicrhau bod arferion gorau a mesurau lliniaru yn cael eu dilyn. Yn ystod y gweithrediad, bydd allyriadau y Prosiect, gan gynnwys effaith Sylffwr

Hecsafflŵorid (SF6), hefyd yn cael eu monitro a'u hadrodd pan fo hynny'n berthnasol.

17 Economeg Gymdeithasol, Adloniant a Thwristiaeth

17.1 Cyflwyniad

- 17.1.1 Mae'r asesiad Economeg Gymdeithasol, Adloniant a Thwristiaeth rhagarweiniol wedi casglu gwybodaeth drwy astudiaeth desg.
- 17.1.2 Mae gan Bowys a Swydd Amwythig gyfran is o boblogaeth iau (15 oed ac iau) a phoblogaeth oedran gweithio (16 i 64 oed) o'u cymharu â Chymru, Gorllewin Canolbarth Lloegr, a Lloegr. Mae gan Bowys a Swydd Amwythig broffiliau oedran hŷn o'u cymharu â Chymru, Gorllewin Canolbarth Lloegr, a Lloegr. Powys, yn benodol, sydd â'r gyfran uchaf o breswylwyr 65 oed a hŷn.
- 17.1.3 Mesur amddifadedd cymharol yw Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALIC). Ym Mhowys, roedd 19 allan o 79 Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Is wedi eu rhestru yn y 0% i'r 50% o'r Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is mwyaf difreintiedig yng Nghymru yn 2019. Mae Mynegai Amddifadedd Lluosog Lloegr yn darparu gwybodaeth debyg ar gyfer ardaloedd gofodol yn Lloegr. Yn 2019, roedd Swydd Amwythig yn safle 165 allan o 317 o awdurdodau lleol.
- 17.1.4 Mae gan Bowys a Swydd Amwythig gyfradd gweithgarwch economaidd uwch o'u cymharu â'u gwlad neu eu rhanbarth priodol, yn ogystal â'r cyfartaledd cenedlaethol. Mae gan Bowys a Swydd Amwythig gyfradd ddiweithdra o 3.3%, sy'n is na'r cyfraddau ar gyfer Cymru (3.7%), Gorllewin Canolbarth Lloegr (4.4%), a Phrydain Fawr (3.7%).

17.2 Adeiladu

- 17.2.1 Yn ystod y cam adeiladu, ar y cam rhagarweiniol hwn o'r asesiad, mae'r effeithiau canlynol yn debygol o fod yn sylweddol:
- Mae'n bosibl y bydd tarfu dros dro oherwydd gwaith adeiladu cebl tanddaearol, megis cloddio ffosydd, gwaith adeiladu peilonau a llinellau uwchben, clirio llystyfiant a dargyfeirio asedau presennol. Gallai'r gwaith adeiladu effeithio ar ddefnyddwyr yr Asedau Busnes, Adloniant a Thwristiaeth oherwydd y posibilrwydd o amwynder gweledol dros dro, effeithiau sŵn ac ansawdd aer sy'n deillio o gerbydau adeiladu a gweithgareddau adeiladu.
 - Bydd dargyfeiriadau Hawliau Tramwy Cyhoeddus dros dro sydd eu hangen yn ystod y gwaith adeiladu yn cael eu diffinio yn ystod y cam dylunio manwl.

Felly, rhagdybir senario gwaethaf lle na ellir cynnal na darparu mynediad diogel na dargyfeiriad yn ystod y gwaith adeiladu. Cynhelir mynediad i'r mwyafrif o'r Llwybrau Cenedlaethol. Mae rhan fer o Lwybr Glyndŵr a Lwybr Clawdd Offa o fewn y Prosiect ac mae'n debygol yr effeithir ar fynediad i'r rhannau o'r llwybr dros dro yn ystod y gwaith adeiladu.

- 17.2.2 PEIR Cyfrol 1: Mae Pennod 19 yn amlinellu'r asesiad rhagarweiniol o'r effeithiau ar economeg gymdeithasol, adloniant a thwristiaeth sy'n gysylltiedig â'r cam adeiladu.

17.3 Gweithrediad

- 17.3.1 Yn ystod y cam gweithredu, mae effeithiau posibl yn cynnwys effeithiau amwynder gweledol i asedau busnesau, adloniant a thwristiaeth yn y Prosiect a thu hwnt iddo, a dargyfeirio dau lwybr cyhoeddus. Fodd bynnag, mae'n debygol na fydd yr effeithiau yn sylweddol.

- 17.3.2 PEIR Cyfrol 1: Mae Pennod 19 yn amlinellu'r asesiad rhagarweiniol o'r effeithiau ar economeg gymdeithasol, adloniant a thwristiaeth sy'n gysylltiedig â'r cam gweithredu.

17.4 Lliniaru

- 17.4.1 Mae mesurau lliniaru a ymwreiddir yn cynnwys pennu llwybrau a lleoli mewn modd sensitif er mwyn osgoi derbynyddion amgylchedd economeg cymdeithasol, adloniant a thwristiaeth.
- 17.4.2 Mae mesurau lliniaru arferion da yn cynnwys datblygu OCEMP er mwyn atal, lleihau neu liniaru effeithiau amgylcheddol sylweddol yn ystod y cam adeiladu.
- 17.4.3 Mae mesurau lliniaru rhagarweiniol ychwanegol yn cynnwys:
- Sicrhau y cynhelir mynediad at asedau busnes, adloniant a thwristiaeth yn ystod y gwaith adeiladu pan fo hynny'n bosibl. Os na ellir osgoi cau dros dro, dylid trafod a chytuno ar ddargyfeiriadau dros dro â'r busnesau perthnasol a'r perchnogion asedau, cyn y gwaith adeiladu. Bydd dargyfeiriadau mynediad yn cael eu marcio'n glir ar hyd y dargyfeiriad;
 - Cytunir ar Gynllun Rheoli Hawliau Tramwy Cyhoeddus a bydd yn manylu mai cau Hawliau Tramwy Cyhoeddus fydd y dewis olaf os na ellir darparu dargyfeiriad diogel.

17.5 Asesiad Pellach

- 17.5.1 Bydd asesiad Economeg Gymdeithasol, Adloniant a Thwristiaeth yn y Datganiad Amgylcheddol yn cael ei ddatblygu ymhellach ar sail y canfyddiadau o'r ymgynghoriad statudol a/neu cynhelir ymgysylltiad ychwanegol â rhanddeiliaid, pan fo hynny'n berthnasol, rhwng cam y PEIR a'r Datganiad Amgylcheddol.

18 Aseiad o'r Effeithiau Cronnol

18.1 Cyflwyniad

18.1.1 Mae'n ofynnol i'r Aseiad o'r Effaith Amgylcheddol gynnwys aseiad ar lefel y Prosiect o effeithiau sylweddol posibl y Prosiect pan gânt eu hystyried yn gronol â datblygiadau eraill, ac aseiad o'r cyfuniad o holl effeithiau amgylcheddol y Prosiect ar dderbynyddion. Y ddau gategori ar gyfer effeithiau cronnus yw effeithiau yn y Prosiect ac effeithiau rhwng y Prosiect:

- Mae effeithiau yn y Prosiect yn ymwneud ag effeithiau ar dderbynydd sydd yn y Prosiect yn unig e.e. effaith amwynder gweledol preswyl yn newid ochr yn ochr ag effaith sŵn adeiladu a gweithrediad y Prosiect ar eiddo preswyl.
- Mae effeithiau rhwng y Prosiect yn ymwneud ag effeithiau'r Prosiect ochr yn ochr ag effeithiau datblygiadau eraill yn ardal yr astudiaeth. E.e. gallai traffig adeiladu y Prosiect, ar y cyd â thraffig adeiladu datblygiad arall yn yr ardal astudio, arwain at gynnydd dros dro mewn traffig ar y rhwydwaith ffyrdd lleol.

18.1.2 Bydd y Datganiad Amgylcheddol yn cynnwys aseiad o effeithiau cronnus yn unol â deddfwriaeth, polisi a chanllawiau cymwys. Cyflwynir canfyddiadau rhagarweiniol yr aseiad hwn, gan gynnwys y rhestr hir cychwynol o ddatblygiadau eraill yn PEIR Cyfrol 1: Pennod 20.

18.2 Effeithiau cronrol

18.2.1 Bydd yr aseiad effeithiau cronnus yn dilyn y dull pedwar cam (fel yr argymhellwyd gan yr Arolygiaeth Gynllunio):

- Cam 1: Cadarnhau rhestr hir o ddatblygiadau presennol eraill a, neu gymeradwy.
- Cam 2: Cadarnhau rhestr fer o ddatblygiadau presennol eraill a, neu gymeradwy.
- Cam 3: Casglu gwybodaeth.
- Cam 4: Aseiad.

18.2.2 Cynhwysir rhagor o wybodaeth am y dull a fydd yn cael ei gymhwyso i'r Prosiect hwn yn PEIR Cyfrol 1: Pennod 20.

18.3 Effeithiau Arwyddocaol Tebygol

- 18.3.1 Ar y cam rhagarweiniol hwn o'r asesiad gyda'r wybodaeth sydd ar gael, ni ddisgwylir y bydd unrhyw effeithiau cronrus yn na rhwng y Prosiect yn codi yn ystod camau adeiladu a gweithredu y Prosiect.

18.4 Lliniaru

Effeithiau cronrus yn y Prosiect

- 18.4.1 Bydd mesurau i osgoi, atal, lleihau neu wrthbwysu unrhyw effeithiau cronrus sylweddol posibl yn y Prosiect yn cael eu nodi a'u disgrifio yn y Datganiad Amgylcheddol. Er y bydd y mesurau a nodir mewn penodau eraill yn y PEIR yn helpu i leihau effeithiau posibl (gan leihau'r potensial i'r Prosiect gyfrannu at effeithiau cronrol), efallai y bydd angen lliniaru ychwanegol er mwyn lliniaru unrhyw effeithiau cronrus sylweddol ymhellach.

Effeithiau cronrus rhwng y Prosiect

- 18.4.2 Bydd mesurau i osgoi, atal, lleihau neu wrthbwysu effeithiau cronrus sylweddol rhwng y Prosiect yn cael eu nodi a'u disgrifio yn y Datganiad Amgylcheddol. Er y bydd y mesurau a nodir mewn penodau eraill yn y PEIR yn helpu i leihau effeithiau posibl (gan leihau'r potensial i'r Prosiect gyfrannu at effeithiau cronrol), efallai y bydd angen lliniaru ychwanegol. Pan fo hynny'n angenrheidiol, mae'n debygol y bydd hyn yn gofyn am gydweithredu a chydweithio â datblygwyr trydydd parti er mwyn cael gwell dealltwriaeth o'r datblygiadau arfaethedig, yr effeithiau sylweddol tebygol a'r posibilrwydd y bydd angen lliniaru.

18.5 Asesiad Pellach

- 18.5.1 Bydd yr asesiad effeithiau cronrus yn cael ei ddatblygu ymhellach drwy broses yr Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol, gweithredu diweddariadau dylunio y Prosiect, gofynion ymgynghori statudol, ac ymgysylltu â rhanddeiliaid. Bydd ymgysylltu parhaus â Chyngor Sir Powys, Cyngor Swydd Amwythig, a'r awdurdodau lleol cyfagos pan fo ceisiadau cynllunio yn gorgyffwrdd, er mwyn cwblhau'r rhestr hir a'r rhestr fer o ddatblygiadau eraill.
- 18.5.2 Cynhwysir yr asesiad effeithiau cronrus llawn yn y Datganiad Amgylcheddol a bydd yn cael ei gyflwyno gyda'r cais am gydsyniad datblygu.

19 Casgliad

19.1 Crynodeb

- 19.1.1 Mae'r PEIR yn cyflwyno canfyddiadau rhagarweiniol proses yr Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol ar gyfer y Prosiect ar sail yr wybodaeth ddylunio a ddarperir ar y cam hwn.
- 19.1.2 Nodwyd nifer o fesurau dylunio a lliniaru ychwanegol er mwyn lliniaru a rheoli effeithiau amgylcheddol yn ystod camau adeiladu a gweithredu y Prosiect.
- 19.1.3 Bydd y mesurau lliniaru rhagarweiniol a argymhellir ar gyfer y cam adeiladu yn cael eu hadrodd yn y cynlluniau rheoli a nodir yn y penodau pwnc priodol yn y PEIR. Yr OCEMP fydd y cynllun rheoli sylfaenol ar gyfer adeiladu.
- 19.1.4 Bydd y mesurau lliniaru a argymhellir ar gyfer y cam gweithredol yn cael eu hintegreiddio mewn cynlluniau rheoli penodol. Bydd y cynlluniau hyn yn cael eu paratoi a'u gweithredu gan y Ceisydd (ac isgcontractwyr) yn rhan o'u systemau rheoli.

19.2 Y Camau Nesaf

- 19.2.1 Bydd y Ceisydd yn parhau i ymgysylltu â'r ymgynghoreion perthnasol drwy gyfarfodydd a thrafodaethau wedi eu targedu pan fo hynny'n briodol, yn ogystal â'r ymgynghoriad statudol a gynhelir yn ystod gwanwyn 2025.
- 19.2.2 Bydd asesiad llawn ar gyfer pob un o'r pynciau a amlinellir yn y PEIR hwn yn cael ei gwblhau ar gyfer y Datganiad Amgylcheddol a fydd yn ystyried unrhyw newidiadau dylunio (e.e., o ganlyniad i ymgysylltu â rhanddeiliaid neu ddatblygu'r dyluniad) ers cwblhau'r PEIR a bydd yn cael ei gyflwyno yn rhan o'r cais DCO.

